

# Cynnwys

Rhagair gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus .....	2
Crynodeb gweithredol .....	5
Cyflwyniad .....	9
Troseddau Casineb .....	10
Troseddau casineb wedi eu gwaethygu gan hiliaeth a chrefydd .....	16
Troseddau casineb homoffobaidd a thrawsffobaidd .....	25
Troseddau casineb anabledd .....	32
Ysgogi casineb .....	40
Troseddau yn erbyn pobl hŷn .....	42
Atodiad Erlyniadau yn ôl Ardal CPS .....	47
Geirfa .....	52

# Rhagair gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus

Mae troseddau casineb yn cynrychioli ffracsiwn fach o holl achosion Gwasanaeth Erllyn y Goron. Serch hynny, rydym yn cydnabod fod eu heffaith ar unigolion, cymunedau a chymdeithas yn gyffredinol yn golygu bod angen ymateb yn gadarn. Yn aml ystyrir y modd yr ydym yn delio â throseddau casineb fel prawf litmws: a gall y canlyniad un ai danseilio hyder pobl wrth geisio cyfiawnder neu i'r gwrthwyneb. Rheswm arall dros ein hagwedd penderfynol dros geisio gwella perfformiad wrth ddelio â'r troseddau hyn.

Mae ein blaenoriaethau corfforaethol yn glir: gwella ansawdd gwaith achos drwy sicrhau bod gan yr erlynwyr y sgiliau cywir a'r offer ar gyfer y dasg, gan wneud yn siŵr hefyd bod dioddefwyr a thystion yn cael eu cefnogi'n briodol ac yn effeithiol. Mae'r blaenoriaethau hyn yr un mor berthnasol i droseddau casineb ag i unrhyw fath arall o erlyniad.

Mae'n bleser medru cyflwyno'r cynnydd cadarnhaol a gofnodwyd ers ein hadroddiad diwethaf ar droseddau casineb. Mae'r nifer o achosion a gyfeiriwyd gan yr heddlu am benderfyniad yn ogystal ag erlyniadau a gwblhawyd, wedi cynyddu. Dros yr un cyfnod, rydym wedi gweld gwelliant sylweddol yn y gyfradd o gollfarnu o 82.6% i 84.7%. Mae'r rhain yn ddangosyddion cadarnhaol a fydd yn ysgogi ymdrech bellach i barhau â'r cynnydd ac i ddelio â'r diffyg mewn cynnydd mewn mannau eraill.

Nid adroddiad ystadegol yw hwn yn unig serch hynny. Rydym yn awyddus hefyd i ymgysylltu â phobl a effeithiwyd gan droseddau casineb. Drwy gydol y flwyddyn rydym wedi parhau i weithio â Phaneli Craffu a Chynnwys Lleol, lle mae'r aelodau hynny wedi cyfrannu mor hael wrth adolygu achosion gorffenedig gan felly roi cymorth i ni wrth ddatblygu polisi a gwneud penderfyniadau.

Gwnaed nifer o gyfraniadau eraill hefyd drwy ymgysylltu a thrafod cadarnhaol: bu i drafodaethau gyda grwpiau cymunedol sy'n rhoi cymorth i ddioddefwyr troseddau casineb arwain at ymarfer samplu i asesu'r canfyddiad bod yr elfen o gasineb mewn troseddau gwaethygedig yn aml yn cael eu hanwybyddu heb eglurhad; bu i'r ymarfer ar y cyd gyda Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu fel rhan o strategaeth a chynllun gweithredu CJS, asesu sut y gallwn wella'r gwaith o rannu data, perfformiad troseddau casineb a delio ag achosion mewn ffordd gyson.

Wrth symud ymlaen, byddwn yn parhau i wrando a dysgu a datblygu'r pethau sydd wedi bod o gymorth wrth yrru perfformiad yn ei flaen megis:

- Cydlynwyr Troseddau Casineb a lledaenu arfer da.
- Gwaith cydgysylltu effeithiol gan yr heddlu wrth erlynnu troseddau casineb
- Gwiriadau byw i wella ansawdd gwaith achos a chynyddu'r nifero ganlyniadau cadarnhaol

Yn 2014/15 byddwn yn cwblhau ein strategaeth troseddau casineb a'r cynllun cyflawni. Bydd hyn yn galluogi ni i ganolbwyntio'n hymdrechion i gynddu'n barhaus neu drwy ddelio â rhwystrau i'r cynnydd hwnnw. Bydd ein Canolbwynt Gwaith Achos yn dod yn ffynhonnell ddynodedig o arbenigedd ymarferol a chadarn ar droseddau

casineb, yn seiliedig ar wersi ymarferol a chyflawni effeithiol. Byddwn yn parhau i ddefnyddio technegau craffu a samplo, yn canolbwyntio ar brofiad dioddefwyr a thystion a sicrhau bod sicrwydd ansawdd erlyniadau troseddau casineb yn gwarantu perfformiad effeithiol.

Mae gennym brofiad a gwaith ymarfer aruthrol ar gael yn fewnol ac ymysg ein rhanddeiliaid, a byddwn yn ffrydio'r adnoddau hyn er budd y sefydliad cyfan. Edrychaf ymlaen at adrodd yn ôl ar ein cynnydd y flwyddyn nesaf.

**Alison Saunders CB**  
**Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus**  
**Medi 2014**

# Crynodeb gweithredol

Dyma'r seithfed Adroddiad Blynyddol Troseddau Casineb a Throseddau yn erbyn Pobl Hŷn. Mae'r adroddiad yn trafod perfformiad yng nghyswllt y troseddau hyn yn ystod 2013/14. Mae'n ceisio darlunio'r perfformiad hwn trwy'r data rheoli sydd ar gael yn ogystal â chanlyniadau cadarnhaol mewn gwaith achos. Mae hefyd yn cynnig enghreifftiau o arfer effeithiol, gwersi a ddysgwyd, datblygiadau ac ymchwil polisi sydd wedi cyfrannu at wella perfformiad.

Yn ychwanegol at yr ymchwil a roddwyd yn yr adroddiad hwn, rydym yn cyhoeddi'r data sylfaenol a ddefnyddiwyd. Gellir gweld y data hyn ar wefan y CPS yn:

[www.cps.gov.uk/data/hate\\_crime/](http://www.cps.gov.uk/data/hate_crime/)

Er mwyn gwneud ein data yn fwy hygyrch i'r cyhoedd, mae'r adroddiad yn cyfeirio yn awr at gyfraddau collfarnu yn hytrach na'r cyfraddau athreuliad a ddefnyddiwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Yn ychwanegol at berfformiad blynyddol, rydym yn defnyddio data dros y chwe blynedd diwethaf pan fyddant ar gael i dynnu sylw at dueddiadau dros amser.

Mae'r CPS yn ceisio gwella ansawdd y data a ddefnyddir mewn adroddiadau mewnol ac allanol ar bob cyfle. Yn ystod y flwyddyn, datblygwyd dull diwygiedig o adrodd ar ganlyniadau penderfyniadau cyhuddo. Defnyddiwyd y dull diwygiedig yn yr adroddiad hwn sy'n darparu ffigur mwy cywir ar gyfer y canran o achosion diffynyddion a aeth ymlaen at erlyniad. O ganlyniad, bydd y data yn wahanol i'r hyn a adroddwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

## Troseddau Casineb

- Yn 2013/14, cynyddodd y nifer o achosion troseddau casineb a gyfeiriwyd at y CPS gan yr heddlu i gael penderfyniad dros 14% o 12,306 y flwyddyn flaenorol i 14,702. Wedi dau ostyngiad yn olynol mewn atgyferiadau, mae'r newid hwn i'w groesawu.
- Cynyddodd y nifer o achosion a gyhuddwyd hefyd o 9,564 neu 77.7% o'r holl achosion a ystyriwyd y flwyddyn flaenorol i 11,161 (79.3%). Yn 2008/09, y ffigur cymharol oedd 10,389 (77.7%).
- Cynyddodd y nifer o gollfarnau yn 2013/14 o 10,794 i 11,915 a chynyddodd y gyfradd gollfarnu hefyd o 82.6% i 84.7%. Mae'r duedd wedi bod tuag i fyny ers 2008/09, pan oedd y gyfradd yn 82.0%.
- Gwelodd 8 Ardal CPS welliant yn eu cyfraddau collfarnu yn 2013/14.
- Ers 2008/09, mae'r gyfran o ganlyniadau llwyddiannus oherwydd pleon euog wedi cynyddu'n raddol o 9,035 (69.3%) i 10,609 (75.4%).
- Gall erlyniadau fethu am amrywiaeth o resymau. Gostyngodd yr achosion yn ymwneud â materion dioddefwyr h.y. dioddefwr yn tynnu'n ôl, ddim yn mynd i'r llys yn groes i'r disgwyl neu nad yw eu tystiolaeth yn cefnogi'r achos, yn 2013/14 o 22.9% neu 521 o gyfanswm y nifer o achosion troseddau casineb a fethodd yn ystod y flwyddyn flaenorol, i 27.5% neu 593.
- Roedd y mwyafrif o ddiffynyddion (83.9%) ar draws yr elfennau troseddau casineb yn ddynton.
- Nodwyd bod 70.5% o'r ddiffynyddion yn perthyn i'r categori Gwyn Prydeinig.
- Roedd 61.1% o ddiffynyddion rhwng 25-59 oed a 24.9% rhwng 18-24 oed.
- Mae'r nifer o rai 10-17 oed sydd yn ddiffynyddion wedi parhau i ostwng o 23.1% yn 2007/08 i 10.6% y llynedd.

- Cyhoeddodd y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus (DPP) ddatblygiad strategaeth troseddau casineb yn yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2012/13. Bu'r gwaith yn parhau a bydd y strategaeth wedi ei chwblhau erbyn Chwarter 1 2014/15.
- Yn ddiweddarach yn 2013, cytunodd yr Uwch Swyddog Gweithredu i sefydlu gweithgor gyda'r nod o ddefnyddio ymagweddau Ardal llwyddiannus ar gyfer sicrwydd ansawdd erlyniadau troseddau casineb. Bydd yr ymagwedd newydd yn ategu'r Safonau Ansawdd Gwaith Achos, sydd â'r nod o fod yn weithredol erbyn 2014/15.
- Cwblhawyd adolygiad o'r pecyn erlyniadau troseddau casineb y Coleg Erlyn, gan ddiweddarau rhannau'n ymwneud ag anabledd a chyfeiriadau at droseddau Trawsffobaid, sydd bellach yn dod o dan y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 lle gall tystiolaeth o elyniaeth ar sail hunaniaeth Drawsrywiol olygu dedfryd hirach.
- Mae'r CPS yn cefnogi ystod o gynlluniau trawslywodraethol. Trefnir y Bwrdd Strategaeth Troseddau Casineb ar y cyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref. Bu i ni gyfrannu at adolygiad a diweddariad cynnydd '*Herio, Adrodd, Atal: Cynllun y Llywodraeth i Daclo Troseddau Casineb*' (Mawrth 2012).

## Troseddau casineb wedi eu gwaethgu gan hiliaeth a chrefydd

- Dyma'r bedwaredd flwyddyn i ni roi adroddiad ar wahân ar droseddau a waethygyd gan hiliaeth a chrefydd.
- Cynyddodd y nifer o ddiffynydion a gyfeiriwyd at y CPS gan yr heddlu i gael penderfyniad cyhuddo 14.7% i 12,184 o'r flwyddyn flaenorol. Cynyddodd cyfanswm y nifer o erlyniadau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn hefyd o 9.1% i 12,368.
- Mae'r gyfran o gollfarnau wedi gwella yn gyson o 82.4% yn 2008/09 i 85.2% yn 2013/14.
- Llwyddodd 8 Ardal CPS i wella eu cyfraddau collfarnu yn ystod y flwyddyn.
- Mae'r gyfran o gollfarnau gyda phleon euog wedi cynyddu dros y cyfnod o 69.8% yn 2008/09 i 76.0% dros y flwyddyn ddiwethaf.
- Roedd y gyfran o droseddau casineb hiliol a chrefyddol yn methu oherwydd problemau gyda dioddefwyr yn 22.0% yn 2008/09 ac er ychydig o welliannau yn ystod y blynyddoedd canlynol mae wedi cynyddu i 27.3% yn 2013/14.
- O'r 11,818 o droseddau hiliol a erlynwyd y llynedd roedd 10,069 (85.2%) yn llwyddiannus ac roedd 75.9% o'r holl ganlyniadau llwyddiannus yn cynnwys pleon euog. Mae'r gyfradd gollfarn yn cynrychioli gwelliant o'r flwyddyn flaenorol pan gafwyd cyfradd o 83.3%. Mae'r gyfran o bleon euog dros yr un cyfnod wedi cynyddu'n raddol o 69.9% yn 2008/09 i 75.9%.
- Cynyddodd y gyfran o achosion a fethodd oherwydd materion dioddefwyr o 23.1% yn 2012/13 i 27.8%.
- Yn 2013/14, erlynwyd 550 achos oedd yn cynnwys casineb a waethygyd gan grefydd gyda chyfradd gollfarnu o 84.2% (463). Roedd 77.3% o'r collfarnau llwyddiannus oherwydd pleon euog. Yn 2012/13, bu 399 erlyniad ac o'r rheini arweiniodd 308 (77.2%) at gollfarnau llwyddiannus, 63.4% oherwydd pleon euog.
- Gostyngodd y gyfran o achosion a fethodd oherwydd materion dioddefwyr o 23.1% (21) yn 2012/13 i 16.1% (14) y llynedd.

- Bu i asesiad o ffeiliau a ddewiswyd ar hap o droseddau a waethgywyd gan hiliaeth a chrefydd archwilio sut y deliwyd â chyhuddiadau a ollyngwyd neu a newidiwyd yn sylweddol.
- Dechreuwyd ar y gwaith o sefydlu Panel Craffu Cenedlaethol yn canolbwyntio ar droseddau casineb a waethgwyd gan grefydd yn dilyn cymeradwyaeth gan y DPP yn yr hydref 2014.

## Troseddau casineb homoffobaidd a thrawsffobaidd

- Mae'r gyfradd gollfarnu ar gyfer troseddau casineb homoffobaidd a thrawsffobaidd wedi aros ar 80.7% yn unol â 2012/13.
- Llwyddodd 7 Ardal CPS i wella eu cyfraddau collfarnu yn ystod y flwyddyn.
- Cynyddodd y gyfran o achosion a arweiniodd at ble euog o 71.6% i 72.3% wrth i'r nifer o bleon euog gynyddu yn ystod y flwyddyn o 785 i 819.
- Cynyddodd y gyfran o achosion a fethodd oherwydd materion dioddefwyr o 21.8% (46) yn 2012/13 i 33.8% (74) y llynedd.
- Cyhoeddwyd y Canllawiau Rheoli Cydraddoldeb Trawsrywiol ynghyd â chanllawiau penodol ar amlygu troseddau casineb trawsffobaidd.
- Arweiniodd ymgynghoriad ar adolygiad o'r Pecyn Cymorth ar gyfer Erlynwyr Troseddau Homoffobaidd a Thrawsffobaidd at ddatblygu gwaith ar draws holl elfennau troseddau casineb er mwyn ategu'r tudalennau unigryw ar y Canolfannau Gwaith Achos a Gwybodaeth.

## Troseddau casineb anabledd

- Cynyddodd y nifer o achosion a gyfeiriwyd at y CPS gan yr heddlu i gael penderfyniad cyhuddo yn 2013/14 i 581 o 579 yn 2012/13. Gwelwyd cynnydd serch hynny yn y gyfradd o benderfyniadau i gyhuddo'r llynedd i 80.0%, ar ôl tair blynedd ar 72.4% yn 2012/13.
- Er i'r nifer o erlyniadau ostwng dros y flwyddyn o 640 i 574, cafwyd gwelliant yn y nifer o gollfarnau i 81.9% o 77.2% yn y flwyddyn flaenorol.
- Llwyddodd 10 Ardal CPS i wella eu cyfraddau collfarnu yn ystod y flwyddyn.
- Bu i'r nifer cyffredinol o achosion a gafodd eu datrys yn sgil pleon euog ostwng ychydig o 418 (65.3%) yn 2012/13 i 395 (68.8%) er i gyfradd y canlyniadau hyn ddangos gwelliant.
- Yn dilyn yr archwiliad thematig ar y cyd o Droseddau Casineb Anabledd, bu i drafodaethau parhaus gyda Chymdeithas Prif Gwnstabiliaid yr Heddlu (ACPO), y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyd (NOMS) a chynrychiolwyr y Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (HMCTS) ganolbwyntio ar oblygiadau'r adroddiad ar gyfer gweithredu ar y cyd.
- Bu i ymarfer ar y cyd gydag APCO ar dracio troseddau casineb anabledd adnabod nifer o bwyntiau dysgu a set o gamau nesaf y gytunwyd arnynt.

## Troseddau yn erbyn pobl hŷn

- Cynyddodd y nifer o achosion a gyfeiriwyd atom gan yr heddlu o 2,832 i 3,317. Mae'r nifer o ddiffynyddion a gyhuddwyd hefyd wedi cynyddu o 2,226 i 2,648 ac mae'n awr yn cynrychioli 79.8% o'r holl benderfyniadau cyn cyhuddo.
- Ers 2008/09, mae'r nifer o erlyniadau wedi cynyddu'n gyson o 1,004 i 2,922. Y llynedd, arweiniodd 81.1% o'r holl erlyniadau at gollfarn, sef yr un gyfradd â'r flwyddyn flaenorol.
- Llwyddodd 4 Ardal CPS i wella eu cyfraddau colfarnu yn ystod y flwyddyn.
- Ers 2008/09, mae'r nifer a chyfran o bleon euog wedi cynyddu o 707 (70.4%) i 2,131 (72.9%).
- Mae'r gyfran o achosion sy'n methu oherwydd materion dioddefwyr wedi cynyddu o 14.0% (30) yn 2008/09 i 25.1% (139) yn 2013/14.
  
- Arweiniodd trafodaethau gydag AGE UK at ddatblygu papur manwl ar gyfer y Fforwm Atebolwydd Cymunedol gan amlygu'r goblygiadau ar gyfer ymarfer erlyniadau a gyfyd yn sgil dementia.

# Cyflwyniad

Dyma seithfed adroddiad troseddau casineb blynyddol y CPS ac mae'n rhoi gwybodaeth am ein perfformiad wrth erlyn y troseddau canlynol yn 2013/14:

- troseddau casineb hiliol a chrefyddol
- troseddau casineb homoffobaidd a thrawsffobaidd
- troseddau casineb anabledd

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'n perfformiad wrth erlyn troseddau yn erbyn pobl hŷn.

Mae ACPO a'r CPS wedi cytuno ar ddiffiniad cyffredin o droseddau casineb:

“unrhyw drosedd a ddehonglir gan y dioddefydd neu unrhyw unigolyn arall i fod wedi ei hysgogi gan elyniaeth neu ragfarn yn seiliedig ar hil neu hil dybiedig rhywun; crefydd neu grefydd tybiedig; cyfeiriadedd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol tybiedig; anabledd neu anabledd tybiedig ac unrhyw drosedd a ysgogir gan elyniaeth neu ragfarn yn erbyn rhywun sy'n drawsryweddol neu y tybir ei fod yn drawsryweddol.”

Mae'r term “troseddau casineb” yn cynnig llaw-fer i'r heddlu ac erlynyddion a llawer o rai eraill mewn sefydliadau cyhoeddus, cymdeithasau cymunedol a mannau eraill. Y geiriau allweddol yn y diffiniad yw casineb a rhagfarn, geiriau a ddefnyddir yn eu hystyr arferol, bob dydd. Nid oes raid i'r erlyniad felly brofi mai casineb oedd y ffactor ysgogol tu ôl i drosedd. Nid oes raid i'r drosedd gyfan fod wedi ei hysgogi gan gasineb chwaith; gall fod yn ddim ond rhan, yn un elfen o'r ymddygiad troseddol neu gall fod yn unig reswm.

Mae'r CPS yn ceisio meithrin hyder mewn cymunedau y mae troseddau casineb yn effeithio arnynt a gwella tryloywder yn ei ymagwedd. Diben yr adroddiad hwn yw rhoi gwybodaeth glir i'r cyhoedd a chymunedau sy'n dioddef yn benodol am y gwaith yr ydym yn ei wneud wrth ymdrin â throseddau casineb a manylion ein perfformiad wrth erlyn troseddau casineb. Cyflwynir y data gorau sydd ar gael a dynodir y bylchau yn y data.

Mae'r CPS yn casglu data<sup>1</sup> i gynorthwyo i reoli ei swyddogaethau erlyn yn effeithiol. Nid yw'r CPS yn casglu data sy'n cael ei gyfrif yn ystadegau swyddogol fel y'u diffinnir yn Neddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007.<sup>2</sup>

---

<sup>1</sup> Tynnwyd y data ar droseddau casineb o System Reoli Achosion y CPS (CMS) a'r System Rheoli Gwybodaeth gysylltiedig (MIS), sydd, fel gydag unrhyw system gofnodi ar raddfa fawr, yn agored i gamgymeriadau posibl wrth gofnodi a phrosesu data. Mae'r ffigurau yn rhai dros dro ac fe allant newid wrth i ragor o wybodaeth gael ei chofnodi gan y CPS

<sup>2</sup> Mae'r ystadegau swyddogol sy'n ymwneud â throseddau a phlisma yn cael eu cynnal gan y Swyddfa Gartref a'r ystadegau swyddogol sy'n ymwneud â dedfrydu, achosion llys troseddol, dod â throseddwyr i'r llys, y llysoedd a'r farnwriaeth yn cael eu cynnal gan Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.



# Troseddau Casineb


Cytunwyd ar Strategaeth Troseddau Casineb yn ystod 2013/14 a dechreuwyd ar gynllun cyflawni. Bydd y strategaeth o gymorth i gadw'r momentwm o safbwynt perfformiad troseddau casineb ac yn targedu materion sy'n rhwystro cynnydd. Y nod yw uchafu'r defnydd o ymrwymadau cyfredol, er mwyn canolbwyntio'n hymdrechion a gwela tryloywder ynghylch sut y gweithredir polisi. Mae'r strategaeth yn ymdrin â: cymorth i ddiodefwrwr a thystion; ansawdd gwaith achos, sgiliau ac offer, arweinyddiaeth; gwybodaeth a rhanddeiliaid.

Ym mis Awst 2013, cytunodd yr Uwch Swyddog Gweithredu sefydlu gweithgor dros dymor byr i ystyried trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd erlyniadau troseddau casineb. Edrychodd y grŵp ar ymarfer cenedlaethol a lleol gan ddod i'r casgliad fod y defnydd o adolygu ceisiadau byw (proses sicrwydd ansawdd lle asesir ffeiliau achosion mewn "amser real") yn cynnig adolygiad cefnogol a mwy o obaith i gael gwell canlyniadau i ddiodefwrwr. Bu i'r grŵp adnabod ystod o faterion allweddol ac sy'n gyson bryderus a all fod yn sail ar gyfer gwiriadau arferol wrth geisio cefnogi gwell ansawdd mewn gwaith achos.

Yn 2013/14 atgyfeiriodd heddluoedd 14,702 o achosion troseddau casineb i'r CPS am benderfyniad. Roedd hyn yn gynnydd o ychydig dros 14% ar ffigwr y llynedd o 12,306. O'r achosion a ystyriwyd y llynedd, mae'r gyfran o'r penderfyniadau i erlyn wedi cynyddu o 77.7% i 79.3%.


Mae graff 1 isod yn dangos y duedd mewn atgyfeiriadau a phenderfyniadau cyhuddo ers 2007/08.

**Graff 1: Cyfanswm atgyfeiriadau troseddau casineb a phenderfyniadau cyhuddo 2007/08 i 2013/14**



Yn 2013/14, y gyfradd gollfarnu ar draws pob edefyn sy'n cael ei fonitro o droseddau casineb oedd 84.7%, sef cynnydd o'i gymharu â 82.6% o'r flwyddyn gynt. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd cyfun ar gyfer collfarnau mewn Llysoedd Ynadon a Llys y Goron o 85.1%. Mae graff 2 isod yn dynodi bod y gyfradd gollfarnu wedi bod yn cynyddu dros y chwe blynedd diwethaf. Mae pleon euog yn cyfrif am 75.4% o'r collfarnau hyn. Mae'r ffigwr hwn yn cymharu â chyfartaledd y Llysoedd Ynadon o 72.2% a Llys y Goron o 72.9%. Mae pleon euog yn fanteisiol i'r dioddefydd a'r tystion gan nad oes rhaid iddynt fynychu'r llys i roi tystiolaeth. Mae oedi'n cael ei leihau trwy alluogi achosion i gael eu dirwyn i ben yn gynt ac ar gostau sylweddol is i'r pwrs cyhoeddus.

**Graff 2: Cyfanswm cyfraddau collfarnu troseddau casineb 2008/09 i 2013/14**



Mae tabl 1 isod yn dynodi bod y cyfraddau collfarnu ar draws yr elfennau cyfunol sy'n cael eu monitro o droseddau casineb wedi parhau i gynyddu a bod y cwmp mewn swmp dros y blynyddoedd diwethaf wedi ei wrydroi dros y flwyddyn o adrodd yn ôl.

**Tabl 1 - Erlyniadau troseddau casineb a gwblhawyd yn ôl canlyniad**

	2008 - 09		2009 - 10		2010 - 11		2011 - 12		2012 - 13		2013 - 14	
	Cyf	%	Cyf	%	Cyf	%	Cyf	%	Cyf	%	Cyf	%
Collfarnau	10,690	82.0%	11,405	81.9%	12,651	82.8%	11,843	83.4%	10,794	82.6%	1,915	84.0%
Aflwyddian nus	2,340	18.0%	2,516	18.1%	2,633	17.2%	2,353	16.6%	2,276	17.4%	2,159	15.0%
<b>Cyfanswm</b>	<b>13,030</b>		<b>13,921</b>		<b>15,284</b>		<b>14,196</b>		<b>13,070</b>		<b>14,074</b>	

Cynyddodd yr achosion yn ymwneud â materion dioddefwyr (h.y. dioddefwr yn tynnu'n ôl, ddim yn mynd i'r llys yn groes i'r disgwyl neu nad yw eu tystiolaeth yn cefnogi'r achos), ar draws pob edefyn o 22.9% (521) yn 2012/13 i 27.5% (593) yn 2013/14. Cynhelir gwaith pwrpasol yn 2014/15 er mwyn cael gwell dealltwriaeth o brofiadau dioddefwyr a thystion troseddau casineb.

Cynyddodd y gyfran o achosion a fu'n aflwyddiannus oherwydd rhyddfarniad ar ôl yr achos o 26.6% i 30.4%, o ganlyniad i gynnydd mewn achosion gwaethygedig ar sail hiliaeth ac anabledd. Cynhelir rhagor o waith yn 2014/15 er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r rhesymau am y cynnydd hwn.

Ar ddiwedd erlyniad, mae achosion yn cael **prif gategori trosedd** i ddangos math a difrifoldeb y cyhuddiadau a wnaethpwyd. Yn 2013/14, troseddau yn erbyn yr unigolyn a throseddau trefn gyhoeddus oedd y mwyaf cyffredin yn cynrychioli 82.6% o'r holl erlyniadau troseddau casineb (52.0% a 30.6% yn y drefn honno).

Roedd 83.9% o **ddiffynyddion** yn ddynion a 70.5% yn Wyn Prydeinig. Roedd y rhai rhwng 25 a 59 oed yn cyfrif am 61.1% gyda 24.9% arall rhwng 18 a 24 oed. Mae o ddiddordeb bod y gyfran o rai 10-13 oed a 14-17 oed oedd yn ddiffynyddion wedi gostwng o 2.6% a 20.5% yn y drefn honno yn 2007/08 i 1.1% a 9.5% yn 2013/14.

Yr hyn a wyddom ynglŷn â **dioddefwyr** yw bod 56.5% yn ddynion a 27.3% yn fenywod. Mae'r nifer o ddiodefwyr pan gofnodwyd eu rhyw (83.8%) wedi gwella yn raddol ers 2007/08 pan oedd yn 44.2%. Fodd bynnag, rydym yn dal i weithio i wella'r gyfradd ddatgelu ar gyfer hyn ynghyd ag agweddau eraill yn ymwneud â dioddefwyr troseddau casineb.

Roedd 60.5% o'r dioddefwyr yn 25-59 oed a 13.1% arall rhwng 18 a 24 oed. Ers 2007/08, mae'r gyfran o "oedran heb ei roi" wedi gostwng o 58.9% i 18.0%.

Parthed ethnigrwydd, mae'r gyfran ddatgelu wedi gwella o 23.2% yn 2007/08 i 46.6% yn 2013/14. Mae cynnydd yn digwydd ond yn amlwg mae llawer mwy i'w wneud gan bawb i wella'r agwedd hon o gasglu data.

## Perfformiad ardaloedd

Yn 2013/14, dangosir y tair Ardal a berfformiodd orau o ran cyfraddau collfarnu ar draws yr holl droseddau casineb o'u cymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol yn Nhabl 2 isod.

**Tabl 2: Erlyniadau troseddau casineb yn ôl canlyniad gan amlygu'r tair Ardal CPS sy'n perfformio orau o'u cymharu â ffigyrau cenedlaethol**

	Collfarnau		Aflwyddiannus		Cyfanswm
	Nifer	%	Nifer	%	
Cenedlaethol	11,915	84.7%	2,159	15.3%	14,074
De Orllewin Lloegr	635	89.2%	77	10.8%	712
Gogledd Orllewin Lloegr	1,378	88.8%	174	11.2%	1,552
Cymru	617	87.5%	88	12.5%	705

Cynyddodd y nifer o erlyniadau a gwblhawyd yn genedlaethol 7.7% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd hyn yn wir hefyd mewn amryw o ardaloedd eraill ond gwelwyd y cynnydd mwyaf yn: Y Dwyrain (24.5%) Llundain (18.8%) a Glannau Mersi a Swydd Gaer (18.1%). Yn ychwanegol at y cynnydd hwn, mae'r data ar gyfer 2013/14 yn dangos bod y gyfran o gollfarnau wedi cynyddu 2.1% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Gweler yr Atodiad am fwy o fanylion am berfformiad ar lefel Ardal CPS ac ardal llw heddlu.

Parhaodd Ardaloedd y CPS i ddatblygu camau blaengar ac effeithiol i gysylltu â chymunedau, dynodi blaenoriaethau ac ymdrin â nhw ac uwchlaw popeth, i geisio gwelliant wrth erlyn troseddau casineb. Bydd y gweithgareddau yn cael eu hasesu i sicrhau bod cymaint â phosibl yn cael ei ddysgu oddi wrth yr arfer da sydd ar gael ac i rannu manteision datblygu Ardal.

Aseiniwyd **Cydlynwyr Troseddau Casineb** i bob Ardal CPS yn ogystal ag i CPS Direct. Mae cydlynwyr yn parhau i chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi erlyniadau troseddau casineb effeithiol a gweithio'n unol â safonau gofynnol cytunedig yn

cwmpasu: rheoli perfformiad, ymgysylltu â'r gymuned a rhanddeiliaid a rhoi polisi ar waith.

Mae cydlynwyr Troseddau Casineb yn cwrdd bob dwy flynedd fel rhwydwaith er mwyn adnabod enghreifftiau o'r hyn sy'n gweithio, amlygu anghenion cymorth, er mwyn cyfrannu at ddatblygu ymagweddau ac i rannu diweddariadau perthnasol. Yn ystod 2013/14, roedd cyfarfodydd rhwydweithio'n cynnwys canolbwyntio ar archwiliad thematig o droseddau casineb anabledd ac ymateb y CPS, gan sicrhau ansawdd erlyniadau troseddau casineb a chymorth i ddiodefwr.

Dros y flwyddyn, roedd y Cydlynwyr Troseddau Casineb ynghlwm yn bwrpasol iawn â'r gweithgor tymor byr a sefydlwyd i asesu ymagweddau cyfredol i sicrwydd troseddau casineb; datblygu gweminar peilot ar faterion allweddol wrth ddelio â throseddau casineb anabledd ac wrth gynllunio a darparu'r Panel Craffu Cenedlaethol ar droseddau a waethygydd ar sail crefydd. Gwerthfawrogi y cyfraniad hwn yn fawr iawn, ac felly hefyd yr holl Ardaloedd wrth barhau i gefnogi'r rôl a'r rhwydwaith.

Mae **Paneli Craffu a Chynnwys Lleol** yn rhoi cymorth i Ardaloedd CPS yn rheolaidd wrth adnabod pwyntiau dysgu a'r arfer orau o achosion a gwblhawyd a adolygir ganddynt. Mae aelodau'n parhau i gyfrannu'n hael at waith y CPS. Bydd yr adborth o bob panel yn cael ei roi ar faterion sy'n cael eu hystyried sy'n rhai gyda goblygiadau cenedlaethol.

Roedd gwaith ei banel craffu wedi ei werthfawrogi cymaint gan sefydliadau cymunedol a phartneriaid statudol hyd nes i CPS Wessex roi'r gwersi a ddaeth o'r cyfarfodydd Panel ynghyd â chofnodion ar dudalennau ei wefan. Yn sgil hyn mae Heddlu Swydd Hampshire wedi creu dolen o'i wefan ei hun i wella tryloywder a rhannu gwybodaeth.

Wrth wneud cynnydd wrth gofnodi canlyniadau mewn perthynas ag ymgodiad dedfryd, bu i Ardaloedd CPS, Tafwys a Chiltern a Mersi a Swydd Gaer fabwysiadu trefn effeithiol, yn destun system atgoffa a gwirio yn ogystal â mewnbwn cyson gan y paneli, a olygodd gynnydd sylweddol dros y flwyddyn.

## Gwaith trawslywodraethol

Bu i ni barhau i gyfrannu i'r Bwrdd Strategaeth Troseddau Casineb trawslywodraethol a drefnwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref. Roedd gwaith eleni'n cynnwys adolygiad o'r cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu '*Herio, Adrodd, Atal: Cynllun y Llywodraeth i Daclo Troseddau Casineb*' (Mawrth 2012) ynghyd â diweddariad i adlewyrchu'r blaenoriaethau a'r ymrwymadau sy'n dod i'r amlwg.

Fel rhan o gyfraniad y CPS at ddatblygu'r strategaeth ar draws y System Cyfiawnder Troseddol a'r cynllun gweithredu, cwblhawyd ymarfer o dracio ffeiliau gennym ar y cyd ag APCO ar ddelio â samplau o achosion o droseddau casineb anabledd.

Cyfrannodd y CPS i'r ymgynghoriad ar adolygiad Comisiwn y Gyfraith i ddeddfwriaeth troseddau casineb a hwyluso sesiynau yn ymwneud â Chomisiwn y Gyfraith gan drafod yn uniongyrchol â Phaneli Craffu a Chynnwys Lleol yng Ngogledd Cymru a Llundain.

Ym mis Medi 2013, lansiodd y Llywodraeth, mewn partneriaeth â gwasanaeth yr heddlu, adolygiad ac ymgynghoriad cyhoeddus i Warediadau y Tu Allan i'r Llys i oedolion (OoCD). Hyd yma, ystyriwyd troseddau casineb yn ddifrifol iawn oherwydd

yr effaith tebygol ar y dioddefwr, y teulu a'r gymuned yn ehangach. O ganlyniad, y troseddau hyn, ynghyd â thrais domestig, yw'r unig fathau o droseddau sydd wedi eu heithrio o'r drefn rybuddio amodol i oedolion. Fodd bynnag mae peth anghysondeb a diffyg eglurdeb o ganlyniad. Dan y trefniadau presennol, gellir defnyddio rhybuddiadau syml ar gyfer rhai troseddau sy'n cynnwys gelyniaeth, ac felly hefyd ar gyfer datrysiadau cymunedol.

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad wedi eu hollti'n gyfartal ar y cwestiwn a ellid defnyddio OoCDs ar gyfer y troseddau hyn. Gallant fod yn addas ar gyfer troseddau bach yn ymwneud â throseddau casineb, cyn belled â bod dymuniadau neilltuoel y dioddefwr yn cael eu bodloni drwy ddelio â'r mater yn y ffordd hon. Bydd angen rhoi ystyriaeth hefyd i'r effaith ar y gymuned ehangach, lle gall ymddygiad y troseddwr gael effaith negyddol. Disgwylir cael ymateb y llywodraeth i'r ymgynghoriad hwn yn ystod yr haf 2014.

## Materion cenedlaethol

Rhagwelwyd y **Canolbwynt Gwaith Achos** fel ffynhonnell cyngor cadarn, ymarferol ac ar unwaith ar gyfer holl erlynwyr CPS, cyfreithwyr a pharagyfreithwyr. Mae'n ategu canllawiau cyfreithiol presennol ac yn darparu hyperddolenni i holl ganllawiau perthnasol. Mae rhan wedi ei neilltuoel ar gyfer erlyniadau troseddau casineb ac yn ystod y flwyddyn dechreuwyd ar y gwaith o gasglu deunydd addas yn cwmpasu elfennau allweddol o waith erlyn.

Mae dysgu gwersi o'r gwaith ymarferol yn parhau'n flaenoriaeth wrth gefnogi gwaith achos safonol. Bu i'r gwrandawriad apêl **Dedfryd rhy Drugarog** yn achos R -v- Sheard gynnig enghraifft o'r math hwn. Yn seiliedig ar brofiadau o'r achos, addaswyd y canllawiau ar ddelio â gwrandawriadau Newton i adlewyrchu'r dysgu a gyfyd a diweddarwyd y Cyfarwyddiadau i Eiriolwyr Erlyn mewn perthynas â'r defnydd cyson o'n canllawiau cyfreithiol ar ymgodi dedfryd. Atgoffwyd y Panel Eiriolwyr am y canllawiau CPS wrth ymgeisio am ymgodiad dedfryd.

Dros y flwyddyn ac yn sgil nifer o ddatblygiadau allanol, diweddarwyd y pecyn e-ddysgu troseddau casineb ar y **Coleg Erlyn**. Cafodd y cwrs hwn a Chefnogi Dioddefwyr a Thystion Bregus sy'n canolbwyntio ar y rhai sydd ag anawsterau iechyd meddwl, eu mandadu ar gyfer erlynwyr.

Parhaodd y gwaith yn fewnol a gyda asiantaethau partneriaethol i wella'r gwaith o gasglu a chyhoeddi data mewn perthynas ag **Ymgodi Dedfryd**, ar gael i bob trosedd a waethgywyd gan elyniaeth neu ragfarn. Ar ddiwedd y flwyddyn, lle dechreuwyd gweld gwelliannau ym mherfformiad yr Ardal CPS, eglurwyd gan gamau gweinyddol cytunedig i'w dilyn ar adegau allweddol. Ynghyd ag amlygu cywir, lle cydnabyddwn pa mor elyniaethus yw'r drosedd, dyma un o'r elfennau mwyaf arwyddocaol o ddeddfwriaeth troseddau casineb sydd â'r nod o anfon neges glir i'r dioddefwyr a'u cymunedau yn ogystal â chyflawnwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol. Fel yr adroddwyd o fewn yr archwiliad thematig ar y cyd o droseddau casineb anabledd (mis Mawrth 2013), nid yw'r system cyfiawnder troseddol yn perfformio'n dda werth gwrdd â disgwyliadau a osodwyd yn y ddeddfwriaeth.

Deliwyd â materion dioddefwyr ym mhob adran o'r adroddiad. Yn ogystal, mae nifer o faterion cyffredinol yn ymwneud â'r dioddefwr o bwysigrwydd wrth erlyn achosion o droseddau casineb.

**Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau** – daeth Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau (Cod Dioddefwyr) diwygiedig i rym yn Rhagfyr 2013. Mae'n sefydlu isafswm y lefel o wasanaeth y gall dioddefwyr troseddau ddisgwyl ei dderbyn

gan yr amrywiol asiantaethau cyfiawnder troseddol a restrir ac yn rhoi mwy o eglurder ar eu cyfer yn eu dealltwriaeth o'u hawliau. Mae'r Cod Dioddefwyr hefyd yn nodi dioddefwyr sydd â hawl i lefel uwch o wasanaeth - dioddefwyr y troseddau mwyaf difrifol, dioddefwyr a dargedir yn mynychu a dioddefwyr bregus neu wedi eu brawychu. Mae'r tri chategori yma wedi eu cynllunio i sicrhau y bydd dioddefwyr gyda'r angen mwyaf yn gallu cael mynediad at gefnogaeth uwch. Mae gan ddiodeffwyr troseddau casineb hawl awtomatig i wasanaeth uwch fel 'dioddefwyr y trosedd mwyaf difrifol'.

**Strategaeth Dioddefwyr a Thystion y CPS** - blaenoriaeth allweddol i'r DPP yw gwella'r gwasanaeth a chefnogaeth mae'r CPS yn ei ddarparu i ddiodeffwyr a thystion trwy gydol eu hamser yn y system gyfiawnder droseddol. Mae'n bwysig fod diodeffwyr a thystion yn cael yr wybodaeth a chefnogaeth gywir trwy gydol yr amser hwnnw er mwyn bodloni eu hanghenion a bod yr achos yn mynd ymlaen i ganlyniad cyfiawn. Mae dogfen y strategaeth yn sefydlu sut ydym yn bwriadu delio â hyn.

**Unedau Cyswllt Dioddefwyr** – mae Unedau Cyswllt Dioddefwyr ymroddedig yn cael eu cyflwyno ar draws yr holl Ardaloedd CPS erbyn diwedd 2014 i sicrhau bod diodeffwyr yn cael cyfathrebiadau amserol, empathig pan benderfynwn atal achos neu addasu'r cyhuddiadau'n arwyddocaol. Mae'r unedau hyn yn siop un stop i ddiodeffwyr parthed ein cyfathrebiadau yn dilyn cwblhau. Bydd yr unedau hefyd yn rheoli cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygu, cwynion a gwaith gweinyddu cynlluniau eraill yn ymwneud â diodeffwyr megis cefnogi teuluoedd mewn profedigaeth.

**Hawl Dioddefwyr i Adolygu – Cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygu** – yn dilyn y dyfarniad yn R v Killik, lansiodd y CPS Hawl Dioddefwyr i Adolygu (VRR) ym mis Mehefin 2013. Mae'r cynllun newydd yn ei gwneud yn haws i ddiodeffwyr geisio adolygiad o benderfyniad y CPS i beidio erlyn. Mae adolygiadau yn cael eu cwblhau'n gychwynnol ar lefel leol a gellir adolygu'r achos ymhellach gan yr Uned Apeliadau ac Adolygiad, ar gais y diodeffwr, yn dilyn penderfyniad yr Ardal. Roedd canllaw yn amodol i ymgynghoriad allanol ffurfiol yn ystod 2013. Daeth y canllawiau terfynol i rym ar 21 Gorffennaf 2014. Mae perfformiad yn cael ei fonitro i adlewyrchu'r nifer o achosion ble cynhaliwyd y VRR yn llwyddiannus fel canran o achosion ble nodwyd bod diodeffwr wedi ei adnabod. Gall diodeffwyr hefyd fynd â'u cwyn i'r Aseswr Cwynion Annibynnol. Bwriedir dadansoddi hyn yn 2014-15.

**Cynllun Cyfathrebu a Chyswllt Dioddefwyr** – yn dilyn gwerthusiad llwyddiannus o'r astudiaeth beilot i brofi sut allwn ni wella cyfathrebu gyda diodeffwyr, rydym wedi gweithredu'r cynllun Cyfathrebu a Chyswllt Dioddefwyr, sy'n cymryd lle'r cynllun Cyfathrebu Uniongyrchol gyda Dioddefwyr. Dan y cynllun diwygiedig, byddwn yn dal i hysbysu diodeffwyr o'n penderfyniadau i atal neu addasu cyhuddiadau'n arwyddocaol, gan ddarparu gwasanaethau uwch penodol i ddiodeffwyr sydd fwyaf angen cefnogaeth. Mae hyn yn cynnwys diodeffwyr troseddau casineb.

**Mesurau arbennig** – mae'r canllaw i erlynyddion parthed mesurau arbennig wedi ei ddiweddarau, a bydd yn cael ei gyhoeddi yn gynnar yn haf 2014. Mae'r canllaw diwygiedig yn ystyried yr argymhellion a wnaethpwyd gan ymchwil 2012 y CPS i ddefnyddio mesurau arbennig, ac yn cynnwys gwybodaeth a chanllaw ymarferol uwch i erlynyddion, yn arbennig parthed cyfryngwyr. Yn ogystal, mae'r canllaw yn darparu gwybodaeth bellach i erlynwyr parthed trafodaethau mesurau arbennig gyda'r heddlu a ffactorau i erlynwyr eu hystyried wrth bennu a ddylid cynnal cyfarfodydd mesurau arbennig gyda thystion.

# Troseddau casineb wedi eu gwaethygu gan hiliaeth a chrefydd

Yn dilyn asesiad ffeil o droseddau wedi eu gwaethygu gan grefydd ym mis Tachwedd 2012 a thrafodaethau cenedlaethol o amgylch y bwrdd (Hydref 2012 a Chwefror 2013) ar droseddau casineb a waethygydd gan hiliaeth a chrefydd, ystyriwyd y cwestiwn o wahanu'r canllawiau cyfreithiol ar droseddau casineb a waethygydd gan hiliaeth a chrefydd yn ddwy ddogfen ar wahân. Er ychydig o apelio cychwynnol, cydnabuwyd bod cyswllt amlwg rhwng y ddau fath o droseddu. Serch hynny, ystyriwyd y ffocws a gafwyd gan y **Panel Craffu Cenedlaethol** wrth ddelio â throseddau casineb a waethygydd gan hiliaeth a chrefydd fel cam buddiol ac un a gytunwyd arno gan y DPP. Cynhelir y Panel tuag at ddiwedd 2014.

Trafodwyd achosion a waethygydd a ollyngwyd yn y trafodaethau cenedlaethol o amgylch y bwrdd lle roedd y canfyddiad ymysg y sefydliadau cymunedol bod y gwaethygu neu'r elfen o elyniaeth fel rhan o'r cyhuddiadau'n aml yn cael eu gollwng o ganlyniad i fargeinio rhwng yr amddiffyniad a'r erlyniad a derbyn y pleon i'r troseddau sylfaenol. Dewiswyd sampl ar hap o achosion gorffenedig i'w dadansoddi'n fanwl. Dewiswyd y drosedd o ymosod cyffredin a waethygydd fel yr un mwyaf cyffredin a gyhuddwyd o'r troseddau penodol (2,623 yn 2012/13). Tynnwyd y 114 o achosion a samplwyd o'r 371 o achosion a gwblhawyd rhwng Ebrill a Mehefin 2013. Canolbwyntiodd yr asesiad ar y prif agweddau o achos a gofnodwyd ar y CMS fel modd o asesu effeithiolrwydd gweithredu polisi.

Tra bod y mwyafrif helaeth o achosion a archwiliwyd wedi gweithredu polisi'r CPS yn gywir, roedd 11 o'r 114 o achosion a adolygwyd (9.6%) yn cynnwys cyhuddiadau a ollyngwyd neu a ddiwygiwyd yn sylweddol a heb eu egluro na'u cofnodi'n glir. Petai'n cael ei allosod i'r holl droseddau o ymosod cyffredin a waethygydd gan hiliaeth neu grefydd a gofnodwyd yn ystod 2012/13 byddai'n hynny'n cyfateb â 251 o achosion. Ar gyfer yr holl droseddau a waethygydd gan hiliaeth neu grefydd yn 2012/13 sydd yn ymddangos ger bron Llys Ynadon am y tro cyntaf, byddai hyn yn cyfateb â 1,381 o achosion ac ar gyfer achosion penodol terfynol ar gyfer yr un cyfnod, 1,133.

Yn ogystal, yn y 13 o achosion a samplwyd, ni roddwyd gwybod am y penderfyniad i'r dioddefwr yn unol â pholisi'r CPS. Tra nad oedd yn cynrychioli'r rhan fwyaf o achosion, mae'r sampl yn cynnwys lleiafrif arywddocaol o achosion lle na lwyddwyd i ddilyn polisi'r CPS.

Yn dilyn y gwaith hwn, cymerir amryw o gamau cytunedig er mwyn atgyfnerthu polisi ac i wella capasiti.

Yn 2013/14 atgyfeiriodd heddluoedd 12,184 o achosion troseddau casineb a waethygydd gan hiliaeth a chrefydd i'r CPS am benderfyniad. Roedd hyn yn gynydd o ychydig dros 14.7% ar ffigwr y flwyddyn flaenorol o 10,622. O'r achosion a ystyriwyd y llynedd, mae'r gyfran o'r penderfyniadau i erlyn wedi cynyddu o 78.4% i 79.7%.

Yn 2013/14, roedd y gyfradd gollfarnu ar gyfer troseddau casineb wedi eu gwaethygu gan hiliaeth a chrefydd yn 85.2%. Mae'r gyfradd hon o lwyddiant yn cymharu â

chyfartaledd cyfun collfarnu'r Llysoedd Ynadon a Llys y Goron o 85.1%. Mae'r ffigwr hwn yn duedd tuag at wella ers 2008/09, pan oedd y gyfradd yn 82.4%.

## Astudiaeth Achos

Bu i'r diffynnydd yn yr achos hwn o CPS Lannau Mersi a Swydd Gaer fynd gyda'i gariad i siop lle ymosododd yn hiliol ar berchennog y siop a'i daro yn ei frest gyda'i ddwrn. Roedd teledu cylch cyfyng ar gael ond roedd y fideo lluniau wedi eu difetha. Gwadodd y diffynnydd yr ymosodiad ac i ddechrau cyhuddodd y fferyllydd o ymosod arno ef. Nid oedd partner y diffynnydd yn fodlon rhoi tystiolaeth yn ei erbyn.

Cyflwynwyd cyhuddiadau o ymosod cyffredin a waethygyd gan hiliaeth, gyda throedd amgen o ymosod syml cyffredin yn unig, yn unol â'r polisi. Mechniwyd y diffynnydd ar gyfer gwrandawriad cyntaf a pheldiodd yn ddieuog. Cynhaliwyd gwrandawriad rheoli achos a gohiriwyd yr achos hyd nes cynnal treial.

Gwnaed cais am ddiweddariad ffeil ac adolygyd yr achos unwaith eto wedi iddo gael ei dderbyn gan arweinydd Troseddau Casineb yr Ardal. Amlygodd y cyfreithiwr y cyfarwyddiadau canlynol i'r erlynydd yn yr achos:

1. Roedd y troseddau yn rhai amgen ac nid oedd y ple ynghylch y drosedd syml yn dderbyniol
2. Y gofyniad i atgoffa'r llys am yr angen am ymgodiad i gyhoeddi hyn, ac i gyhoeddi hyd a lled hyn.
3. Yr angen i gofnodi ymgodiad ar y HRS, yn cynnwys methiant gan y llys i gyhoeddi hyn, ac unrhyw fethiant o'r fath i'w hysbysu i lefel D.
4. Nodyn atgoffa i geisio iawndal a nodyn i ddweud bod yr heddlu wedi cael cais i gael barn y dioddefwr ar geisio gorchymyn atal wrth gollfarnu (atal y diffynnydd rhag mynd at y dioddefwr neu'r Fferyllfa dan sylw).

Cadarnhaodd yr heddlu fod y dioddefwr wedi cytuno fod cais am orchymyn atal wrth gollfarnu yn briodol.


Yn y treial collfarnwyd y diffynnydd am ymosod cyffredin a waethygyd gan hiliaeth. Cafodd ei ddedfrydu i 6 mis o garchar (yn cynnwys ymgodiad o ddau fis) a gorchymyn atal yn ei atal rhag cysylltu â'r dioddefwr a'i weithle.



## Ystadegau a thablau wedi eu cyfuno


Yn 2013/14, cynyddodd y nifer o ddiffynyddion a gyfeiriwyd at y CPS gan yr heddlu i gael penderfyniad cyhuddo 14.7% i 12,184 o'r flwyddyn flaenorol. Mae graff 3 isod yn dangos y gwelliant dros y flwyddyn yn ogystal â'r duedd ar gyfer 2007/08.

**Graff 3: Cyfanswm troseddau casineb wedi eu gwaethygu gan hiliaeth a chrefydd a phenderfyniadau cyhuddo 2007/08 i 2013/14**



Cynyddodd cyfanswm y nifer o erlyniadau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn hefyd 9.1% i 12,368. Mae graff 4 isod yn dangos bod y gyfradd gollfarnu wedi gwella'n gyson ers 2008/09 o 82.4% i 85.2% yn 2013/14.

#### Graff 4: Cyfraddau collfarnu troseddau casineb wedi eu gwaethygu gan hiliaeth a chrefydd 2008/09 i 2013/14



Mae Tabl 3 isod yn dangos bod y duedd hon mewn collfarnau llwyddiannus wedi parhau mewn cymhariaeth â gostyngiad yn y nifer o erlyniadau am yr un cyfnod.

**Tabl 3 - Erlyniadau a gwblhawyd yn ôl Canlyniad**

	2008 - 09		2009 - 10		2010 - 11		2011 - 12		2012 - 13		2013 - 14	
	Cyf	%	Cyf	%	Cyf	%	Cyf	%	Cyf	%	Cyf	%
Collfarnau	9,576	82.4%	9,993	82.4%	11,038	83.1%	10,412	84.2%	9,415	83.1%	10,532	85.2%
Aflwyddiannus	2,048	17.6%	2,138	17.6%	2,239	16.9%	1,955	15.8%	1,919	16.9%	1,836	14.8%
<b>Cyfanswm</b>	<b>11,624</b>		<b>12,131</b>		<b>13,277</b>		<b>12,367</b>		<b>11,334</b>		<b>12,368</b>	

Mae'r gyfran o gollfarnau gyda phleon euog wedi cynyddu dros y cyfnod o 69.8% yn 2008/09 i 76.0%. Mae'r gyfran gynyddol o bleon euog yn awgrymu bod achosion yn cael eu paratoi yn well ac yn cael eu dwyn i'r llys yn gyflymach. Mae hyn yn fanteisiol i'r dioddefwyr a'r tystion gan nad oes rhaid iddynt fynychu'r llys i roi tystiolaeth ac mae mantais o ran cost hefyd.

Gall erlyniadau fethu am amrywiaeth o resymau. Cafwyd gwelliant yn yr achosion yn ymwneud â materion dioddefwyr (h.y. dioddefwr yn tynnu'n ôl, ddim yn mynd i'r llys yn groes i'r disgwyl neu nad yw eu tystiolaeth yn cefnogi'r achos), rhwng 2008/09 a 2010/11 ond yna cafwyd cynnydd gyda naid o 23.1% i 27.3% y llynedd.


### Troseddau casineb a waethygyd gan hiliaeth

Yng nghyswllt troseddau casineb a waethygyd gan hiliaeth, cynyddodd cyfanswm y nifer o ddiffynyddion a gyfeiriwyd at y CPS gan yr heddlu i gael penderfyniad cyhuddo yn 2013/14 i 11,719 ac o'r rheiny cyhuddwyd 79.8%.

O'r 11,818 o droseddau hiliol a erlynwyd y llynedd roedd 10,069 (85.2%) yn llwyddiannus ac roedd 75.9% o'r holl ganlyniadau llwyddiannus yn cynnwys pleon euog. Cafwyd gwelliant yn y gyfradd gollfarnu ar y flwyddyn flaenorol (83.3%) ond o

Graff 5 isod, gwelir bod hyn yn dangos tuedd parhaus o gynnydd dros y chwe blynedd diwethaf.

**Graff 5: Cyfraddau colffarnu troseddau casineb a waethygyd gan hiliaeth 2008/09 i 2013/14**



Dengys Tabl 4 isod, ers 2008/09, bod y duedd gyffredinol yn y nifer o erlyniadau wedi cynyddu o 11,288 i 11,818 a bod y gyfran o gollfarnau wedi cynyddu dros yr un cyfnod o 82.4% i 85.2%.

**Tabl 4 - Erlyniadau a gwblhawyd yn ôl canlyniad**

	2008 - 09		2009 - 10		2010 - 11		2011 - 12		2012 - 13		2013 - 14	
	Cyf	%	Cyf	%	Cyf	%	Cyf	%	Cyf	%	Cyf	%
Colffarnau	9,306	82.4%	9,750	82.4%	10,566	83.1%	9,933	84.4%	9,107	83.3%	10,069	85.2%
Aflwyddiannus	1,982	17.6%	2,089	17.6%	2,145	16.9%	1,841	15.6%	1,828	16.7%	1,749	14.8%
<b>Cyfanswm</b>	<b>11,288</b>		<b>11,839</b>		<b>12,711</b>		<b>11,774</b>		<b>10,935</b>		<b>11,818</b>	

Mae'r gyfran o bleon euog dros yr un cyfnod wedi cynyddu'n raddol o 69.9% yn 2008/09 i 75.9% y llynedd.


Mae'r gyfran o achosion o droseddau casineb hiliaeth sy'n methu oherwydd materion dioddefwyr (27.8%) wedi cynyddu ers 2008/09 (21.3%) a'r flwyddyn flaenorol yn enwedig (23.1%). Mae'r gyfran o achosion sy'n methu wrth i'r dioddefwr fethu â mynychu'n groes i'r disgwyl (18.1%) yn parhau i fod ddwywaith gymaint â phob trosedd arall (8.5%).

## Troseddau casineb a waethygyd gan grefydd

Cododd y nifer o ddiffynyddion a gyfeiriwyd at y CPS gan yr heddlu i gael penderfyniad cyhuddo yn 2013/14 i 465, yn dilyn cwmp o'r flwyddyn flaenorol, ac o'r rheiny cyhuddwyd 77.4%.

Yn 2013/14, erlynwyd 550 achos oedd yn cynnwys casineb a waethygyd gan grefydd gyda chyfradd gollfarnu o 84.2%. Roedd 77.3% o'r collfarnau llwyddiannus yn cynnwys pleon euog. Fel a welir yn Graff 6, mae'r duedd yn y gyfradd gollfarnu wedi parhau i wella ychydig dros y cyfnod ers 2008/09.

**Graff 6: Cyfraddau collfarnu troseddau casineb a waethygyd gan hiliaeth 2008/09 i 2013/14**



Yn Nhabl 5 gwelir amrywiadau yn y nifer o erlyniadau a gwblhawyd dros chwe blynedd diwethaf. Yn ychwanegol, mae'r gyfradd gollfarnu wedi amrywio dros y cyfnod.

**Tabl 5 - Erlyniadau a gwblhawyd yn ôl Canlyniad**

	2008 - 09		2009 - 10		2010 - 11		2011 - 12		2012 - 13		2013 - 14	
	Cyf	%	Cyf	%	Cyf	%	Cyf	%	Cyf	%	Cyf	%
Collfarnau	270	80.4%	243	83.2%	472	83.4%	479	80.8%	308	77.2%	463	84.2%
Aflwyddiannus	66	19.6%	49	16.8%	94	16.6%	114	19.2%	91	22.8%	87	15.8%
<b>Cyfanswm</b>	<b>336</b>		<b>292</b>		<b>566</b>		<b>593</b>		<b>399</b>		<b>550</b>	

Gostyngodd y gyfran o achosion a fethodd oherwydd materion dioddefwyr o 23.1% yn 2012/13 i 16.1% y llynedd.

Mae'r nifer o droseddau casineb a waethygyd gan grefydd wedi parhau yn isel ac mae felly yn anodd dynodi tueddiadau ystyrlon.

Yn y tymor hirach, dylai gwahanu data erlyn yn ymwneud â throseddau hiliol a chrefydd gynnig darlun manylach a mwy defnyddiol o'r profiad o droseddau casineb o fewn cymunedau yn ogystal â'i effaith yn y dyfodol. Dylai effaith y nifer isel o droseddau casineb a waethygyd gan elyniaeth grefyddol a gyfeiriwyd ac a erlynwyd barhau yn ystyriaeth wrth ddadansoddi'r data ac mae'n cynnig dadl dros gael archwiliad mwy arferol ar achosion gan Banelli Craffu ac Ymlyniad Lleol i sicrhau bod yr hyn sy'n cael ei ddysgu yn cael ei ddefnyddio wrth ymdrin ag achosion.

Ar ddiwedd erlyniad, mae pob diffynnydd yn cael **prif gategori trosedd** i ddangos math a difrifoldeb y cyhuddiadau a wnaethpwyd. Troseddau yn erbyn yr unigolyn a throseddau trefn gyhoeddus oedd y mwyaf cyffredin yn cynrychioli 83.8% o'r holl erlyniadau troseddau a waethygydd gan hiliaeth neu grefydd (52.4% a 31.4% yn y drefn honno). Gwelodd y pedair blynedd diwethaf o adrodd newid yn y POCs gyda throseddau yn erbyn yr unigolyn yn cynyddu 8.2 o bwyntiau canran dros y cyfnod a throseddau trefn gyhoeddus yn gostwng 6.2 pwynt canran.

Mae'r **Diffynyddion** mewn troseddau casineb a ysgogwyd gan hiliaeth a chrefydd yn ddynion yn bennaf (84.1%) a Gwyn Prydeinig (70.3%). Roedd 61.3% yn 25-59 oed a 25.1% arall rhwng 18-24 oed. Mae'r gyfran o ddiffynyddion 10-13 oed a 14-17 oed yn parhau i ostwng o 2.3% a 17.8% yn y drefn honno yn 2008/09 i 1.1% a 9.2% y llynedd.

Mae'r **Dioddefwyr** yn ddynion yn bennaf ar (58.2%) ac mae 25.7% yn fenywod. Mae'r gyfran o ddioddefwyr yr ydym wedi dynodi rhyw wedi parhau i wella ers 2008/09 pan oedd yn 63.8%, ond y llynedd, roedd y ffigwr wedi cynyddu i 83.9%. Rydym yn parhau i weithio i wella'r ffigwr hwn gyda data arall demograffig am ddioddefwyr troseddau casineb.

Roedd y rhan fwyaf o'r dioddefwyr (62.4%) rhwng 25 a 59 oed gyda 12.4% arall rhwng 18 a 24 oed. Ers 2008/09, mae'r gyfran o achosion pan gofnodwyd oedran y dioddefwr wedi cynyddu o 61.9% i 82.2%.

Er bod y gyfran o achosion pan fydd data ethnigrwydd ar gael wedi cynyddu o 33.8% yn 2008/09 i 46.1% yn 2013/14, mae'n amlwg bod llawer mwy i'w wneud i wella'n dealltwriaeth o'r maes hwn.

## Perfformiad ardaloedd

Yn 2013/14, dangosir y tair Ardal a berfformiodd orau o ran cyfraddau collfarnu ar draws yr holl droseddau casineb a waethygydd gan hiliaeth a chrefydd o'u cymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol yn Nhabl 6 isod:

**Tabl 6: Erlyniadau troseddau casineb a waethygydd gan hiliaeth a chrefydd yn ôl canlyniad yn amlygu'r tair ardal CPS sy'n perfformio orau o'u cymharu â ffigyrau cenedlaethol**

	Collfarnau		Aflwyddiannus		Cyfanswm
	Nifer	%	Nifer	%	
Cenedlaethol	10,532	85.2%	1,836	14.8%	12,368
Dwyrain	594	88.9%	74	11.1%	668
De Orllewin Lloegr	552	88.9%	69	11.1%	621
Cymru	502	88.8%	63	11.2%	565

Yr Ardaloedd CPS a welodd y cynnydd mwyaf mewn erlyniadau a gwblhawyd oedd y Dwyrain (32.0%) Glannau Mersi a Swydd Gaer (21.0%) a'r De Ddwyrain (20.1%).

## **Astudiaeth achos**

Bu CPS Gorllewin Canolbarth Lloegr yn llwyddiannus wrth erlyn yr achos hwn, y nifer fwyaf erioed a gollfarnwyd yn llwyddiannus yn Llys y Goron Wolverhampton, lle llwyddwyd i gollfarnu bob un o'r 32 diffynnydd heblaw un ohonynt.

Trefnodd y gynghrair Amddiffyn Saesnig orymdaith brotest yng nghanol tref a oedd yn darged gwrth-orymdaith gan Uno yn Erbyn Ffasgiaeth. Rhannwyd y ddwy orymdaith gan linell o swyddogion yr heddlu.

Pan drodd bethau'n ymosodol, dechreuodd yr EDL daflu taflegrau at yr heddlu mewn ymdrech i gyrraedd yr orymdaith arall.

Yn dilyn ymchwiliad gan yr heddlu i adnabod y rhai a oedd yn gyfrifol am y trais, arestiwyd nifer o ddynion a'u cyhuddo o greu anhrefn treisgar.

Nid yn unig yr oedd yr heddlu wedi profi'r trais gwaethaf a welwyd mewn cyd-destun trefn gyhoeddus ganddynt, ond cafodd digwyddiadau'r diwrnod effaith arwyddocaol a dinistriol ar gymunedau lleol. Nodwyd gweiddi, arwyddion a chamdriniaeth oll yn y dystiolaeth mewn perthynas â'r diffynnyddion a dargedodd y gymuned ar sail hiliaeth a chrefydd.

Rhoddyd hysbysiad ysgrifenedig i bob parti y byddai ymgodiad y ddedfryd ar sail gelyniaeth a waethygyd gan hiliaeth a chrefydd yn berthnasol. Ystyriodd y llys yr holl dystiolaeth i gefnogi hyn yn ogystal gan y ddwy ochr, dros gyfnod o ddeuddydd.

Ar ddiwedd y treial, dedfrydwyd 31 o ddynion o wahanol rannau o'r wlad hyd am gyfanswm o 60 o flynyddoedd ac wyth mis.

## Dysgu gwersi

Deliodd CPS y De Orllewin gydag achos difrifol iawn a gyflwynwyd gan y cyfryngau fel troseddau casineb. Roedd y diddordeb yn yr achos mor sylweddol nes i'r DPP alw Panel Rheoli Achos Lleol ac fe ymunodd yr erlynydd adolygu â hi ynghyd â'r Uwch Swyddog Archwilio a'r Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chyswilt Cymunedol. Y nod oedd archwilio tystiolaeth a hanes yr achos er mwyn sefydlu a oedd y mater yn un o drosedd casineb ac i sicrhau y cyflwynwyd yr holl ffeithiau perthnasol i'r tribiwnlys dedfrydu.

Defnyddiwyd yr achos hwn hefyd fel testun trafodaeth yn yr LSIP gan ei fod yn ymwneud â'r angen i gael tystiolaeth i gadarnhau mewn unrhyw achos lle bu ffactor gwaethygu. Gwelwyd y panel rheoli achos fel ffordd ddefnyddiol o gynnal archwiliad llawn o'r holl wybodaeth gyda chwaraewyr allweddol yr erlyniad yn mynychu. Mabwysiadwyd y model fel arfer da ac mae'n cael ei annog ym mhob achos sy'n ymwneud â throseddau casineb ar y lefel ranbarthol ar gyfer achosion llai.

Yn **CPS Cymru/Wales**, mae aelodau LSIP yn awgrymu meysydd i'w archwilio/dadansoddi ymhellach yn rheolaidd. Yn dilyn pryder am anghysondebau rhwng data'r CPS a data'r heddlu, cytunwyd ar drefn sicrhau data gydag APCO. Cytunwyd ar amserlen fisol gyda'r pedwar llu heddlu yng Nghymru a thrwy hynny mae'r HCC ac arweinydd troseddau casineb yr heddlu yn cynnal adolygiad manwl o'r holl achosion a ddaeth i ben a'r rhai sy'n dal yn fyw. Mae'r sicrwydd yn darparu: Tystiolaeth o unrhyw ddiffyg fflagio/dynodi gan yr heddlu a'r CPS; rhagor o wybodaeth am y rhesymau pam bod achosion yn aflwyddiannus; cyfleoedd i gynyddu nifer yr achosion sy'n cael eu herlyn. Ymgorfforir argymhellion cyffredinol yr LSIP hefyd yn yr adolygiadau hyn. Bydd

## Gweithio gyda'n gilydd

Gwelodd Panel Craffu Troseddau Casineb Hiliol a Chrefyddol CPS y Gogledd Ddwyrain achos yn ymwneud ag ymosodiad a dargedodd deulu Iddewig o Gateshead. Nododd un aelod o'r Panel bod yna deuluoedd Iddewig sydd wedi dewis byw mewn un rhan neilltuol o Gateshead gan eu bod yn credu ei bod hi'n ddiogel iddynt yno. Mae gan ymosodiadau ar deuluoedd o fewn yr Ardal honno effaith ychwanegol felly ar y gymuned gyfan. Galwodd yr EDCEM gyfarfod gydag aelod o'r Panel, aelod o'r Gymuned Iddewig yn Gateshead, ac arweinydd troseddau casineb heddlu Northumbria i drafod paratoi Datganiad Effaith Cymunedol er mwyn delio ag effaith troseddau o'r fath. Ar hyn o bryd mae'r heddlu'n ymgynghori â'r Gymuned Iddewig yn Gateshead wrth baratoi Datganiad Effaith Cymunedol a fydd yn adlewyrchu barn y bobl hynny.

# Troseddau casineb homoffobaidd a thrawsffobaidd

Yn dilyn y gwelliant i'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003, ychwanegwyd gelyniaeth ar sail adnabod trawsrywioldeb fel ffactor gwaethygu statudol wrth bennu dedfryd mewn achosion o'r fath.

Cymerwyd **amryw o gamau cefnogol** yn ystod y flwyddyn. Fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer y newid gofynnol i'r System Rheoli Gwaith Achos dosbarthwyd canllawiau ar amlygu a monitro materion ar gyfer gweinyddwyr ac erlynwyr. Rhennir yr amlygu trosedd homoffobaidd gyfredol i gynnwys un ar gyfer troseddau homoffobaidd ac un ar gyfer troseddau trawsffobaidd o haf 2014.

**Cwblhawyd y Canllawiau Rheoli Cydraddoldeb Trawsrywioldeb** a'i gylchu yn ystod y flwyddyn. Diweddarwyd deunydd e-ddysgu'r Coleg erlyn i adlewyrchu'r datblygiadau hyn. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i uwchraddio'r pecyn cymorth erlyn troseddau casineb homoffobaidd a thrawsffobaidd yn cynnwys ymarfer ymgynghorol gydag Ardaloedd. Roedd yr ymateb yn ategu diweddariad o'r deunydd a oedd yn cydfynd â datblygiad y Canolbwyntiau Gwaith Achos a Gwybodaeth (gweler tudalen 11). Bydd gwaith pellach ar y rhain ac eflennau eraill o droseddau casineb a chefnogi erlynwyr yn canolbwyntio ar ddatblygiad y Canolbwynt.

Galwyd **Panel Craffu Cenedlaethol** i asesu ymdrin ag erlyniadau troseddau casineb trawsffobaidd diweddar. Dewiswyd y pwnc er ystyriaeth gan banel cenedlaethol gan fod adolygiad o ffeil achos gynharach wedi adnabod swmp isel o erlyniadau mewn perthynas â throseddau casineb trawsffobaidd ynghyd â chyfradd gollfarnu ychydig yn is na 74%. Yn ogystal, cydnabuwyd y gallai Paneli Craffu a Chynnwys Lleol ei chael hi'n anodd casglu digon o dystiolaeth o'r achosion a welent i adnabod tueddiadau a allai roi cymorth i wella'r gwaith o ddelio ag achosion.

Rhoddwyd adborth i Ardaloedd Cyfranogol gan ofyn iddynt roi diweddariad ar unrhyw ymatebion gweithredol. Paratowyd adroddiad hefyd ar gyfer Grŵp Prif Erlynydd y Goron. Y Pum Ardal: Gofynnwyd i Lannau Mersi a Swydd Gaer, Gogledd Orllewin Lloegr, De Orllewin Lloegr, Wessex a Gorllewin Canolbarth Lloegr am adroddiad diweddar. Bu i bob Ardal adnabod gweithredu perthnasol a datblygu arno. Adroddodd CPS Gorllewin Canolbarth Lloegr a Glannau Mersi-Swydd Gaer weithredu pellach cefnogol: Mae Gorllewin Canolbarth Lloegr wedi cytuno ar brotocol lleol gyda Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr ar ddelio â throseddau casineb yn cynnwys canllawiau cyfredol ar droseddau casineb Trawsffobaidd tra llwyddodd CPS Glannau Mersi a Swydd Gaer i ennill y nod siarter LGB&T Navajo Glannau Mersi a Swydd Gaer.

Gweithiodd Ardaloedd gyda'r heddluoedd perthnasol i ymdrin â materion yn ymwneud â delio ag achosion, y defnydd priodol o fesurau arbennig a materion yn ymwneud â chymorth i ddioddefwyr drwy unedau Gofal Tystion. Darparwyd nodyn atgoffa i staff penodol a grwpiau staff ar faterion yn ymwneud â'r defnydd o amodau mechnïaeth a gorchmynion atal, tra cafwyd amryw o ymrwymadau ymlaen llaw ar gyfer hyfforddiant arbenigol a dargedir, samplu dipio o DVCs perthnasol ac ymgysylltiad cymunedol.

Yn 2013/14 atgyfeiriodd heddluoedd 1,307 o achosion homoffobaidd a thrawsffobaidd i'r CPS am benderfyniad. Roedd hyn yn gynydd o ychydig dros 18.3% ar ffigur y flwyddyn flaenorol o 1,105. O'r achosion a ystyriwyd y llynedd, mae'r gyfran o'r penderfyniadau i erlyn wedi cynyddu o 74.4% i 75.4%.




Yn 2013/14 cododd y gyfradd gollfarnu ar gyfer yr holl erlyniadau homoffobaidd a thrawsffobaidd i 80.7%, yn unol â'r gyfradd ar gyfer 2012/13 ac yng nghyd-destun cynnydd yn y nifer o erlyniadau a gwblhawyd am y flwyddyn.

## Ystadegau a thablau wedi eu cyfuno

Cynyddodd y nifer o ddiffynyddion a gyfeiriwyd atom ar gyfer penderfyniad cyhuddo gan yr heddlu ychydig o 1,105 i 1,307. Dros yr un cyfnod, cynyddodd y gyfran o gyfeiriadau a arweiniodd at benderfyniad i gyhuddo o 74.4% (822) i 75.5% (985).


Mae graff 7 isod yn dangos y cynnydd mewn achosion a atgyfeiriwyd ac a gyhuddwyd dros y flwyddyn adrodd.

### Graff 7: Cyfanswm atgyfeiriadau troseddau homoffobaidd a thrawsffobaidd a phenderfyniadau cyhuddo 2007/08 i 2013/14



Mae'r gyfradd gollfarnu ar gyfer troseddau casineb homoffobaidd a thrawsffobaidd (gweler Graff 8 isod) wedi aros ar 80.7% yn unol â'r flwyddyn flaenorol ond roedd y perfformiad hwn yn ymwneud â mwy o erlyniadau llwyddiannus a gwblhawyd, sef 913 o'i gymharu ag 885.

## Graff 8: Cyfraddau colffarnu troseddau homoffobaidd a thrawsffobaidd 2008/09 i 2013/14



Fel y gwelir yn nhabl 7, cynyddodd cyfanswm y nifer o erlyniadau a gwblhawyd dros y flwyddyn ond ers 2008/09 mae'r duedd wedi bod yn anwadal.

**Tabl 7 - Erlyniadau a gwblhawyd yn ôl Canlyniad**

	2008 - 09		2009 - 10		2010 - 11		2011 - 12		2012 - 13		2013 - 14	
	Cyf	%	Cyf	%	Cyf	%	Cyf	%	Cyf	%	Cyf	%
Colffarnau	815	80.5%	929	80.6%	1,034	80.7%	951	78.7%	885	80.7%	913	80.7%
Aflwyddiannus	198	19.5%	223	19.4%	247	19.3%	257	21.3%	211	19.3%	219	19.3%
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,013</b>		<b>1,152</b>		<b>1,281</b>		<b>1,208</b>		<b>1,096</b>		<b>1,132</b>	

Mae'r gyfran o achosion llwyddiannus a gyfyd yn sgil pleon euog wedi cynyddu i 72.3% (819) o 71.6% (785).

Ar ôl 2012/13 pan gafwyd gwelliant yn y nifer o achosion yn methu oherwydd materion yn ymwneud â dioddefwyr, cynyddodd y gyfran i 33.8% o achosion aflwyddiannus (74) o 21.8% (46) y flwyddyn flaenorol.

Ar ddiwedd erlyniad, mae achosion yn cael **prif gategori trosedd** i ddangos math a difrifoldeb y cyhuddiadau a wnaethpwyd. In 2013/14, troseddau yn erbyn yr unigolyn a throseddau trefn gyhoeddus oedd y mwyaf cyffredin yn cynrychioli 82.0% o'r holl erlyniadau troseddau homoffobaidd a thrawsffobaidd (49.5% a 32.5% yn y drefn honno).

Roedd 86.3% o **ddiffynyddion** yn ddynion a 70.7% yn Wyn Prydeinig. Roedd y rhai rhwng 25 a 59 oed yn cyfrif am 58.9% gyda 24.7% arall rhwng 18 a 24 oed. Mae o ddiddordeb bod y gyfran o rai 10-13 oed a 14-17 oed oedd yn ddiffynyddion wedi gostwng o 2.4% a 19.0% yn y drefn honno yn 2008/09 i 1.1% a 11.5% yn 2013/14.

Yr hyn a wyddom ynglŷn â **dioddefwyr** yw bod 49.1% yn ddynion a 35.1% yn fenywod. Mae'r nifer o ddioddefwyr pan gofnodwyd eu rhyw (84.2%) wedi gwella yn

raddol ers 2008/09 pan oedd yn 60.6%. Fodd bynnag, rydym yn dal i weithio i wella'r data hwn ynghyd ag eraill yn ymwneud â dioddefwyr troseddau casineb.

Roedd 52.7% o'r dioddefwyr yn 25-59 oed a 19.9% arall rhwng 18 a 24 oed. Ers 2008/09, mae'r gyfran o "oedran heb ei roi" wedi gostwng o 40.7% i 18.9%.

Parthed ethnigrwydd, mae'r gyfran ddatgelu wedi gwella o 38.2% yn 2008/09 i 51.2% yn 2013/14. Mae cynnydd yn digwydd ond yn amlwg mae llawer mwy i'w wneud gan bawb i wella'r agwedd hon o gasglu data.

## Perfformiad ardaloedd

Yn 2013/14, dangosir y tair Ardal a berfformiodd orau o ran cyfraddau collfarnu ar draws yr holl droseddau casineb homoffobaidd a thrawsffobaidd o'u cymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol yn Nhabl 8 isod:

**Tabl 8: Erlyniadau troseddau casineb homoffobaidd a thrawsffobaidd yn ôl canlyniad yn amlygu'r tair Ardal CPS sy'n perfformio orau o'u cymharu â ffigyrau cenedlaethol**

	Collfarnau		Aflwyddiannus		Cyfanswm
	Nifer	%	Nifer	%	
Cenedlaethol	913	80.7%	219	19.3%	1,132
De Orllewin Lloegr	63	92.6%	5	7.4%	68
Tafwys a Chiltern	47	92.2%	4	7.8%	51
Gogledd Orllewin Lloegr	137	88.4%	18	11.6%	155

Yr Ardaloedd CPS a welodd y cynnydd mwyaf yn niferoedd y troseddau casineb Homoffobaidd a Thrawsffobaidd yn ystod y flwyddyn oedd: Swydd Efrog a'r Humber (24.6%), De Orllewin Lloegr (23.6%) a Gorllewin Canolbarth Lloegr (20.0%)

## Astudiaeth achos

Aeth y diffynnydd yn yr achos hwn o **CPS Gogledd Ddwyrain Lloegr** i mewn i siop fetio lle roedd eisoes wedi cael ei wahardd am nifer o flynyddoedd a dechreuodd gam-drin dau aelod o staff yno.

Galwyd un aelod o staff, y wraig, yn “dyke” ar fwy nag un achlysur gan amlygu gelyniaeth y diffynnydd felly ar sail cyfeiriadedd rhywiol neu o leiaf ei gysyniad ef o'i chyfeiriadedd rhywiol hi.

Ni sylwodd swyddog yr heddlu ar yr elyniaeth ac i ddechrau ni chafodd y drosedd ei thrin fel un o drosedd casineb na'i chyhuddo'n gywir ychwaith, hyd nes yr adolygwyd yr achos.

Atgoffwyd yr erlynydd o'r angen i godi'r mater o ymgodi dedfryd ac atgoffwyd y llys o'i ddyletswydd yn hyn o beth.

Erlynwyd yr achos yn llwyddiannus fel un o aflonyddwch, ofn neu bryder dan adran 4a o'r Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986. Dedfrydwyd y diffynnydd i 14 wythnos o garchar gyda 4 wythnos ychwanegol am yr elfen waethygedig a gwtogwyd i gyfanswm o 12 wythnos yn y ddalfa yn sgil ple euog, yn ohiriedig am 12 mis ynghyd ag iawndal o £100 yr un i'r dioddefwyr, £80 o ordal dioddefwr ac £85 mewn costau.

Digwyddodd yr achos o **CPS De Ddwyrain Lloegr** yn sgil gêm bêl-droed rhwng Brighton a Hove Albion a Derby County. Mae pob ffordd yn arwain i'r orsaf ac felly'n uno mewn manau penodol. Wrth i'r heddlu oruchwylio clywsant rai o gefnogwyr Derby County yn gweiddi ar gefnogwyr Brighton a Hove Albion. Aeth yr heddlu at y cefnogwyr a chlywodd un swyddog gamdriniaeth homoffobaidd yn cael ei weiddi drosodd a throsodd. Gwelodd ddau ddyn ar falen y grŵp gyda'u breichiau ar led yn gweiddi'r geiriau hyn. Cafodd y ddau eu harestio. Wrth gael eu cyfweld dywedodd y ddau a oedd dan amheuaeth yr un peth: eu bod wedi yfed alcohol cyn y gêm a'u bod yn 'herian' cefnogwyr Brighton. Cyfaddefodd y ddau iddynt ddefnyddio termau difrifol ond gan ddweud mai dim ond ychydig o hwyl oedd y cyfan. Wrth edrych yn ôl, dywedodd y ddau y gallent weld fod hyn yn homoffobaidd.

Penderfyniad yr ynadon oedd bod gweiddi homoffobaidd yn broblem ddifrifol sy'n gwaethygu. Ym marn yr ynadon roedd hi'n rhesymol credu y byddai gosod gorchymyn o gymorth wrth atal trais ac anhrefn ac yn anfon neges glir allan i'r cefnogwyr. Cafodd y ddau ddiffynnydd Orchymyn Gwahardd Pêl-droed am 3 blynedd a'u dedfrydu am

## Gweithio gyda'n gilydd

Gweithiodd **CPS Gogledd Orllewin Lloegr** gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, Stonewall a Gendered Intelligence i ddatblygu pecyn adnoddau addysgiadol am ddim gyda'r nod o drechu bwlio homoffobaidd a thrawsffobaidd a throseddau casineb ymysg pobl ifanc. Mae'r adnodd, a gymeradwywyd gan Undeb Cenedlaethol yr Athrawon, yn cynnwys clipiau fideo, gwybodaeth a chynlluniau gwersi i athrawon fedru archwilio'r materion hyn. Nod yr adnodd yw cynyddu dealltwriaeth pobl ifanc ynghylch rhagfarn homoffobaidd a thrawsffobaidd, eu haddysgu ynghylch eu cyfrifoldebau fel dinasyddion a rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau iddynt herio agweddau ac ymddygiadau sy'n arwain at fwlio a throseddau casineb.

Bu i bobl ifanc o Ymddiriedolaeth Ieuencid Sheena Amos, Coleg Technoleg Dame Elisabeth Cadbury UCLAN ac LGBT Youth North West oll helpu i ddyfeisio a pherfformio sefyllfaoedd dramatig yn yr adnoddau. Mae'r sefyllfaoedd yn seiliedig ar brofiadau gwirioneddol y bobl ifanc a'r oedolion sy'n gosod esiampol a gymrodd ran yn y prosiect.

## Gwersi a ddysgwyd

Rhoddodd panel craffu troseddau homoffobaidd a thrawsffobaidd **CPS Gogledd Ddwyrain Lloegr** ystyriaeth i achos yn ymwneud â diffynnydd ifanc a gyhuddwyd o amryw o droseddau. Yn fyr, wynebodd gyhuddiad difrifol o ddwyn nad oedd wedi ei waethygu'n homoffobaidd. Wynebodd ddau gyhuddiad arall o ddifrod troseddol gyda dau gyhuddiad arall yn ategol dan y Ddeddf Trefn Gyhoeddus. Mewn un achos, taflodd fwd at gar gan grafu'r paent ac mewn achos arall rhwygodd y blwch llythrau oddi ar ddrws wrth weiddi'n anweddus ar berchennog y tŷ. Gwaethygyd y ddwy drosedd hyn yn homoffobaidd.

Pan ddaeth yn amlwg ei fod am gael dedfryd sylweddol o garchar, ond cyn ei ddedfrydu, penderfynwyd gollwng y troseddau o ddifrod a threfn gyhoeddus ar sail lles cyhoeddus. Nododd y panel amryw o bwyntiau:

- ni fu unrhyw ymgynghori â'r heddlu nac yn wir â'r dioddefwyr;
- ni ystyriwyd gorchymyn atal;
- nid oedd yn amlwg o'r penderfyniad bod digon o ystyriaeth wedi ei rhoi i'n polisi erlyn troseddau casineb.

Mae rhan hanfodol o'r polisi hwnnw'n datgan, lle bydd prawf tystiolaethol yn cael ei fodloni mewn achosion sy'n ymwneud â gelyniaeth, bydd bron bob amser er lles y cyhoedd i erlyn. I'w bwysu a mesur yn erbyn hyn oedd y ffaith na fyddai cosbau gwaeth wedi eu dedfrydu am yr achosion a oedd yn aros i'w hystyried yn llys yr ymadon/ieuenctid.

Mae Canllawiau Cyfreithiol mewn perthynas â Chod y Dioddefwr yn gosod ein goblygiadau i ddioddefwyr y troseddau mwyaf difrifol e.e. troseddau casineb, lle gwneir penderfyniadau i beidio terfynu neu newid cyhuddiad.

Roedd pryderon y Panel Craffu'n seiliedig ar y ffaith nad oedd hi'n ymddangos bod adolygiad y ffeil wedi ystyried canllawiau troseddau casineb na lles y cyhoedd. Ymateb yr Ardal oedd i orchymyn penaethiaid unedau i atgoffa cyfreithwyr i roi ystyriaeth deg i bolisiâu troseddau casineb mewn sefyllfaoedd o'r fath ac i adlewyrchu hyn yn briodol ar ffeil. Gofynnwyd i DCCPs ym mhob Ardal CPS i ystyried dilyn y drefn hon a rhoddwyd erthygl yn Nghylchlythyr Troseddau Casineb.

## Astudiaeth achos

Cyhuddwyd y diffynnydd yn yr achos hwn yn CPS Llundain gydag aflonyddwch heb drais yn dilyn ymgyrch ddi-baid a dargedodd ddau ddyn. Cyflwynwyd tystiolaeth sylweddol ger bron y llys yn ymwneud â chyfathrebu drwy e-bost a chyfryngau cymdeithasol, gyda llawer ohono ym marn y llys yn homoffobaidd ac yn fygythiol.

Wrth ddedfrydu, nododd y barnwr fod difrifoldeb y mater yn golygu mai dedfryd o garchar oedd yr unig ddedfryd briodol. Cafodd y diffynnydd wyth wythnos o garchar ar gyfer pob trosedd gan greu cyfanswm o un wythnos ar bymtheg, a ohiriwyd am ddwy flynedd. Roedd y ddedfryd yn cynnwys 200 awr o waith di-dâl yn y gymuned dros y deuddeg mis nesaf. Yn ogystal gorfodwyd y diffynnydd i dalu £775 a Gordal Dioddefwr o £80.

Gwnaed cais am Orchymyn atal hefyd a fydd yn parhau mewn grym tan orchymyn pellach. Bydd unrhyw dramgwyddo'r gorchymyn hwn yn golygu chwe mis o garchar drwy law y Llys Ynadon neu bum mlynedd yn Llys y Goron.

Yn yr achos hwn o **CPS Wessex**, mae'r dioddefwr yn ferch drawsryweddol sy'n cyflwyno ei hun fel unigolyn benwyaidd. Pan oedd hi'n canu yng nghnanol y dref, sylweddolodd fod y diffynnydd yn gweiddi arni. Roedd ef yn bod yn ymosodol am ei rhywedd gan awgrymu'n gryf y dylai hi bacio'i phethau a gadael. Atebodd y dioddefwr fod ganddi berffaith hawl i fod yno ac yn sgil hynny cododd y diffynnydd ei ddwrn ac yna bygwth ei thrywanu. Aeth yn ei flaen i bwnio'r gitâr gan achosi twll bach ynddo. Wrth iddo gerdded i ffwrdd cafodd ei arestio. Cafodd ei gyhuddo o ddifrod troseddol ac o achosi aflonyddwch bwriadol, gofid a thrallod drwy ddefnyddio geiriau ac ymddygiad bygythiol a sarhaus (adran 4a o'r Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986)

Plediodd y diffynnydd yn ddieuog. Yn adeiladu'r llys ar ddiwrnod ei dreial, bu iddo ymddwyn mewn modd afreolus a gofynnodd y staff diogelwch iddo adael. Cytunodd yr Ynadon i barhau â'r Treial yn absenoldeb y Diffynnydd ac fe'i cafwyd yn euog o'r ddau gyhuddiad. Cyhoeddwyd gwarant ar gyfer ei arestio.

Pan fynychodd y Diffynnydd y llys ddeufis yn ddiweddarach, gofynnodd i ganlyniad y treial gael ei wrthod. Ni fu'n llwyddiannus gyda'r cais hwn. Fe'i dedfrydwyd i gyfnod o garchar gohiriedig: (6 mis o garchar a ohiriwyd am 12 mis) a'i orchymyn i dalu £65 mewn iawndal ond dim costau. Atgoffodd yr erlynydd y llys o'i oblygiadau dan adran 146 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 ond ni chofnododd y cyhoeddwyd unrhyw ymqodiad.

# Troseddau casineb anabledd

Cafodd **Polisi/canllawiau cyfreithiol ar Droseddau Casineb Anabledd** eu cyfuno a'u hadolygu yn ystod y flwyddyn. Ar ôl ymgynghori â Chydlynwyr Troseddau Casineb a Phrif Erlynyddion y Goron yn 2012, diwygiwyd y ddogfen hon i ystyried y ddeddfwriaeth bresennol a materion/argymhellion yn deillio o'r Arolygiad Cyfiawnder Troseddol ar y Cyd o Droseddau Casineb Anabledd a gyhoeddwyd ym Mawrth 2013. Mae rhai o'r newidiadau yn cynnwys:

- Ehangu'r bennod sy'n ymdrin â dynodi ac amlygu achosion o droseddau casineb anabledd i atgoffa erlynyddion o'r angen i weithio yn rhagweithiol gyda'r heddlu i gael rhagor o wybodaeth i helpu i ddynodi achosion pan fydd adran 146 yn berthnasol ac i sicrhau bod achosion yn cael eu hamlygu yn gywir ar CMS er mwyn gallu gwneud cais am ddwysau'r ddeddfryd pan fydd hynny'n addas ac i'r canlyniad gael ei gofnodi.
- Atgoffir erlynyddion y dylai hysbysiad o'r bwriad i godi adran 146 gael ei roi cyn gynted ag sy'n bosibl, yn ddefnyddol yn y gwrandawriad llys cyntaf.
- Mae cyfeiriad at ystyriaeth o ba, os o gwbl, geisiadau gorchymyn ategol all fod yn addas ar ddiwedd yr achos, yn awr yn cael ei gynnwys yn y bennod adolygu achos i sicrhau bod hyn ym meddwl yr erlynydd yn ystod y cam hwn, ac i sicrhau bod y mater yn cael ei adolygu yn barhaus.
- Mae'r bennod dioddefwyr a thystion yn awr yn atgoffa erlynyddion, pan wneir penderfyniad am yr achos sy'n cael y canlyniad na fydd y dystiolaeth o waethgiad (yr elfen adran 146 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003) bellach yn cael ei chyflwyno i'r llys, y dylid anfon llythyr at y dioddefwr, er nad oes newid i'r cyhuddiad.

**Archwiliad Thematig** - Ym mis Ionawr 2014, darparwyd adroddiad cynnydd er sylw Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi ar y cynnydd hyd yma mewn ymateb i'r archwiliad thematig ar y cyd o droseddau casineb anabledd. Roedd y gweithrediadau'n cynnwys:

- Diffiniad ar y cyd wedi'i gadarnhau gan gynrychiolwyr o CPS, ACPO a NOMS
- Gwiriad ffynhonnell o gywirdeb diffiniad wedi'i ymgymryd o holl gyhoeddiadau cenedlaethol
- Atgoffwyd Cydlynwyr Troseddau Casineb o'r angen i wirio deunydd a gynhyrchwyd yn lleol
- Gwnaed troseddau casineb yn droseddau o flaenoriaeth ac yn un o 12 o fesurau perfformio â phwyslais mawr yn unig
- Bydd ymagwedd newydd i sicrwydd ansawdd troseddau casineb yn cael ei chyflwyno
- Gwaith briffio ar sut i gasglu data a'r sail resymegol am y casgliad a gylchir

Disgwylir cychwyn ar archwiliad dilynol ym mis Gorffennaf 2014.

Datblygodd y **Cynllun Gweithredu Troseddau Casineb Anabledd** mewn ymateb i ymchwiliad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i aflonyddu sy'n ymwneud ag anabledd ac arolygiad thematig y CJI, datblygwyd a chafwyd trefn derfynol ar gynllun gweithredu sy'n nodi ystod o ymrwymadau. Disgwylir cael adroddiad cynnydd tuag at ddiwedd y flwyddyn yn 2014.

Cwblhawyd a dosbarthwyd deunydd o **Weithdy'r Llyw-wyr** i'w ddefnyddio mewn Ardaloedd. Nod yr ymagwedd oedd codi ymwybyddiaeth ynghylch troseddau casineb anabledd, yr hyn a ystyrir yn drosedd, y dull o'i rheoli'n gyfreithiol a sut i weithredu.

Yn y pecyn cafwyd canllawiau i staff rheng flaen a ddatblygwyd yn dilyn ymgynghoriad â chyfranogwyr mewn gweithdy. Hyd yma, mae'r mwyafrif o Ardaloedd CPS wedi adrodd eu bod yn gwneud defnydd o'r ymagwedd.

Cytunwyd ar **ymarfer tracio ACPO/CPS** rhwng y CPS ac APCO gyda'r nod o: wella'r ddealltwriaeth o athreuliad: darparu mwy o dryloywder wrth adrodd ar berfformiad troseddau casineb a hyrwyddo gwell cysondeb wrth ddelio ag achosion. Bu i'r canlyniadau gynnwys:

- Ni chafodd y troseddwr ei adnabod yn 64% o droseddau a gofnodwyd, gan awgrymu bod troseddau casineb ychydig yn fwy tebygol o gael eu 'canfod' na throseddau'n gyffredinol.
- Mae sampl ar y cyd yn awgrymu y gall fod sgôp i adnabod rhagor o droseddau casineb anabledd o ddigwyddiadau casineb anabledd a adroddir.
- Bu i swyddog yr heddlu gofnodi gelyniaeth mewn 61% o leiaf o achosion.
- Ymddengys bod tua 37% o achosion lle cafodd y troseddwr ei adnabod, wedi bod yn destun penderfyniadau cyhuddo gan yr heddlu, yn groes i ganllawiau'r DPP.
- Gall cysylltiad rheolaidd rhwng yr heddlu ac erlynwyr wella llif gwybodaeth, gwella dealltwriaeth o faterion gweithredol a rhoi cymorth wrth amlygu blaenoriaethau ar y cyd.

Datblygir cynllun gweithredu ar y cyd drwy gytundeb gydag APCO ar gyfer 2014/15.

Yn 2013/14 atgyfeiriodd heddluoedd 581 o achosion troseddau casineb anabledd i'r CPS am benderfyniad. 579 oedd y ffigwr hwn yn y flwyddyn flaenorol. O'r achosion a ystyriwyd y llynedd, cynyddodd y gyfran o'r penderfyniadau i erlyn o 72.4% i 80.0%.


Y gyfradd gollfarnu ar gyfer erlyniadau troseddau casineb anabledd yn 2013/14 oedd 81.9%, cynnydd o'r flwyddyn ddiwethaf ac yn unol â'r duedd ers 2008/09 er bod cyfanswm yr erlyniadau a gwblhawyd dros y flwyddyn wedi gostwng.

## Ystadegau a thablau wedi eu cyfuno

Cynyddodd y nifer o achosion a gyfeiriwyd at y CPS gan yr heddlu i gael penderfyniad cyhuddo rhyw ychydig yn 2013/14 i 581 o 579 yn 2012/13. Mae graff 9 isod yn dangos y duedd ers 2007/08. Gwnaed rhagor o benderfyniadau i erlyn sef 465 o'i gymharu â 419 yn 2012/13; a chynrychiolodd y penderfyniadau hyn gyfran uwch o'r achosion a benderfynwyd arnynt, sef 80.0% o'i gymharu â 72.4% yn 2012/13.




**Graff 9: Cyfanswm atgyfeiriadau troseddau casineb a phenderfyniadau cyhuddo 2007/08 i 2013/14**



Gostyngodd y nifer o gollfarnau dros y flwyddyn o 494 i 470, ond cynyddodd y gyfran o ganlyniadau llwyddiannus dros yr un cyfnod o 77.2% i 81.9%. Serch hynny, mae Graff 10 yn dangos bod y duedd mewn cyfraddau collfarnu ers 2008/09 wedi cynyddu.

**Graff 10: Cyfraddau collfarnu troseddau casineb anabledd 2008/09 i 2013/14**



Yn aml bydd collfarnau llwyddiannus yn deillio o bleon euog ac er i'r ffigurau yn y flwyddyn adrodd ostwng eto o 418 i 395, cynyddodd y gyfran o ganlyniadau llwyddiannus o bleon euog o 65.3% i 68.8%.

Mae Tabl 9 yn dangos sut, ers 2008/09, bod cyfanswm y nifer o erlyniadau a aeth ymlaen wedi codi, cyrraedd brig ac yna wedi aros yn wastad mae'n ymddangos, yn adlewyrchu efallai'r nifer cyffredinol isel o droseddau casineb y cafwyd adroddiadau arnynt.

**Tabl 9 - Erlyniadau a gwblhawyd yn ôl Canlyniad**

	2008 - 09		2009 - 10		2010 - 11		2011 - 12		2012 - 13		2013 - 14	
	Cyf	%	Cyf	%	Cyf	%	Cyf	%	Cyf	%	Cyf	%
Collfarnau	299	76.1%	483	75.7%	579	79.8%	480	77.3%	494	77.2%	470	81.9%
Aflwyddiannus	94	23.9%	155	24.3%	147	20.2%	141	22.7%	146	22.8%	104	18.1%
<b>Cyfanswm</b>	<b>393</b>		<b>638</b>		<b>726</b>		<b>621</b>		<b>640</b>		<b>574</b>	

Gostyngodd y gyfran o achosion a fethodd oherwydd materion dioddefwyr o 17.3% (18) yn 2013/14 i 21.2% (31) y llynedd. Roedd y ffigurau yn 2008/09 yn 16.0% (15).

Ar ddiwedd erlyniad, mae achosion yn cael **prif gategori trosedd** i ddangos math a difrifoldeb y cyhuddiadau a wnaethpwyd. Troseddau yn erbyn yr unigolyn a throseddau trefn gyhoeddus oedd y mwyaf cyffredin yn cynrychioli 56.3% o'r holl erlyniadau troseddau casineb anabledd (46.4% a 9.9% yn y drefn honno). Roedd yna ystod fwy arwyddocaol o gategoriâu troseddau eraill a gynrychiolwyd o fewn erlyniadau troseddau casineb anabledd nag ar gyfer unrhyw edefyn arall o droseddau casineb (gweler Tabl 10) o bosibl yn adlewyrchu tuedd i fanteisio mewn llawer o droseddau casineb anabledd.

**Tabl 10: Prif gategori trosedd ar gyfer pob edefyn troseddau casineb**

Categori'r brif drosedd	Anabledd	Homoffobaidd a Thrawsffobaidd	Troseddau wedi eu gwaethygu gan Hiliaeth a Chrefydd
Lladdiad	0.2%	0.6%	0.1%
Troseddau yn erbyn yr unigolyn	46.4%	49.5%	52.4%
Troseddau rhywiol	3.6%	0.5%	0.2%
Byrgleriaeth	6.8%	1.1%	0.5%
Lladrad	8.8%	2.7%	0.8%
Dwyn a Thrin	13.1%	2.8%	3.2%
Twyll a Ffugiad	3.5%	0.1%	0.1%
Difrod Troseddol	3.3%	4.3%	5.1%
Troseddau Cyffuriau	0.9%	0.9%	1.1%
Troseddau Trefn Gyhoeddus	9.9%	32.5%	31.4%

Mae'r rhan fwyaf o'r **diffynyddion** yn ddynion (75.3%), ond erlynwyd cyfran sylweddol uwch o fenywod (24.7%) o'i gymharu ag edefynnau eraill troseddau casineb (15.8% mewn troseddau casineb a waethygyd gan hiliaeth a chrefydd a 13.7% mewn troseddau casineb homoffobaidd a thrawsffobaidd). Roedd y rhan fwyaf o ddiffynyddion yn Wyn Prydeinig (74.2%) a'r rhai rhwng 25 a 59 oed yn cyfrif am 61.1% ac roedd 21.4% arall rhwng 18 a 24 oed. Mae o ddi-ddordeb bod y gyfran

o rai 10-13 oed a 14-17 oed oedd yn ddiffynyddion wedi gostwng o 4.9% a 23.5% yn y drefn honno yn 2007/08 i 1.4% a 12.7% yn 2013/14.

Yr hyn a wyddom ynglŷn â'r **dioddefwyr** yw bod 41.7% yn ddynion a 40.1% yn fenywod tra nad oedd 18.1% wedi nodi eu rhyw.

Roedd y rhan fwyaf o'r dioddefwyr (43.9%) rhwng 25 a 59 oed. Mae'r gyfradd ddatgan ar gyfer oed wedi gwella o 43.7% yn 2007/08 i 79.4% y llynedd.

O ran ethnigrwydd y dioddefwyr, mae'r gyfradd ddatgan wedi gwella ers 2007/08, pan oedd yn 28.5% i 47.1% y llynedd. Gwyn Prydeinig yw'r categori mwyaf cyffredin yn 41.2%. Ond mae angen rhagor o waith i wella data dioddefwyr.

## Perfformiad ardaloedd

Yn 2013/14, dangosir y tair Ardal a berfformiodd orau o ran cyfraddau collfarnu ar draws yr holl droseddau casineb anabledd o'u cymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol yn Nhabl 11 isod:

**Tabl 11: Erlyniadau troseddau casineb yn ôl canlyniad gan amlygu'r tair Ardal CPS sy'n perfformio orau o'u cymharu â ffigurau cenedlaethol**

	Collfarnau		Aflwyddiannus		Cyfanswm
	Nifer	%	Nifer	%	
Cenedlaethol	470	81.9%	104	18.1%	574
Gogledd Orllewin Lloegr	75	92.6%	6	7.4%	81
De Ddwyrain Lloegr	19	90.5%	2	9.5%	21
Dwyrain Canolbarth Lloegr	30	88.2%	4	11.8%	34

Yr Ardaloedd CPS a welodd y cynnydd mwyaf mewn erlyniadau troseddau casineb anabledd yn 2013/14 oedd Swydd Efrog a'r Humber (58.5%), Gorllewin Canolbarth Lloegr (36.0%) a Llundain (30.0%).

## Gwersi a ddysgwyd

Darparodd **CPS Glannau Mersi a Swydd Gaer** ddau Weithdy Llywio dros y flwyddyn. Nod y sesiynau hyn yw codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r hyn a olygir gan droseddau casineb anabledd, pa gymorth sydd ar gael i ddiodefwrwr a thystion a sut i ddelio â throsteddau o'r fath. Yn sesiwn Swydd Gaer, cryfhaodd yr Ardal ei hymgysylltiad â'r gymuned Fyddar a Nam ar y Clyw yn lleol, wrth i iaith arwyddion gael ei darparu ar eu cyfer. Efallai mai'r mater mwyaf arwyddocaol a godwyd ar y diwrnod oedd y ffaith nad oedd cyfleuster i adrodd trosedd ar gael mewn iaith arwyddion mewn gorsafoedd heddlu yn Swydd Gaer. Bu hyn yn bryder i bobl Fyddar yn y gymuned ers peth amser. Roedd CPS Glannau Mersi-Swydd Gaer yn medru cysylltu ag elusen leol, Rhwydwaith Cymorth Byddardod, gyda chynrychiolydd o Heddlu Swydd Gaer. Parhaodd y drafodaeth ar ôl y gweithdy Llywio a chadarnhawyd yn ddiweddar iawn y bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau ar gyfer Swydd Gaer yn ariannu darpariaeth o gyfleusterau priodol a hygyrch ar gyfer troseddau a adroddir mewn gorsafoedd heddlu yn Swydd Gaer mewn iaith arwyddion. Yn ogystal, bu i gynrychiolydd o sefydliad cymunedol lleol a fynychodd y sesiwn, amlygu pryderon ynghylch un achos neilltuol. Wedi hyn, llwyddodd cydweithiwr o Heddlu Swydd Gaer i weithio gyda Chydlynnydd Troseddau Casineb y CPS i adnabod yr achos a adolygwyd wedyn yn fewnol ac mewn partneriaeth â Phanel Craffu a Chynnwys Lleol yr Ardal. Drwy wneud hyn, mae'r Gweithdai Llywio wedi cynnig cyfle pwysig i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o droseddau casineb anabledd yn ogystal â chyfleoedd pwysig i fagu hyder a dangos tryloywder.

Trefnodd **CPS Dwyrain Canolbarth Lloegr** ginio a sesiwn ddysgu lle rhoddodd diodefwrwr trosedd casineb anabledd gyflwyniad emosiynol i'r staff yn ystod Wythnos y Bobl. Mae gan y siaradwr gwadd anableddau dysgu, a rhoddodd gyflwyniad law yn llaw ag aelod o staff o brosiect MENCAP yn lleol am drechu troseddau casineb. Eglurodd sut y cafodd ef a'i wraig, sydd hefyd yn anabl, eu herlid a'u bygwth yn dreisgar gan blant eu cymdogion am flynyddoedd lawer. Taflwyd carthion a than gwyllt drwy eu blwch llythyrau, a chawsant eu gwthio wrth iddynt gerdded ar y stryd.

Mynegodd y siaradwr ei anawsterau wrth adrodd y troseddau a'i brofiadau wrth geisio cefnogaeth gan yr heddlu. Yn y pen draw cafodd ei roi mewn cartref arall mewn tŷ lloches.

Roedd y digwyddiad yn rhan o gyfres o sesiynau 'Cinio a Dysgu – Ni yw eich Cymuned'. Dywedodd Grace Moronfolu, Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth ac Ymgysylltiad Cymunedol: "Rhannodd ein gwestai'r effaith ddinistriol a gafodd trosedd casineb anabledd arno ef a'i deulu. Roedd y sesiwn yn neilltuol o bwerus gan fod pobl yn medru uniaethu â'i deimladau wrth iddo gael ei dargedu dim ond am ei fod yn edrych yn wahanol i'r rhan fwyaf o bobl."

## Astudiaeth achos

Yn yr achos hwn o **CPS Gorllewin Canolbarth Lloegr**, bu'r dioddefwr mewn damwain car yn 1994 a achosodd niwed i'r ymennydd. Effeithiodd yr anafiadu hyn ar ei gallu i ymateb yn gyflym ac yn aml rhaid oedd gofyn cwestiynau fwy nag unwaith. Mae hi'n dioddef o anghofrwydd tymor byr sy'n ei gwneud hi'n amhosibl iddi gofio dyddiadau ac amseroedd y 5 ymosodiad honedig. Ei gŵr oedd y diffynnydd a oedd wedi ei bychanu'n ddi-baid oherwydd ei hanabledd, gan ddweud wrthi'n rheolaidd ei bod hi'n sbatig gan ddynwared ei lleferydd. Ymosododd arni dros gyfnod parhaus o amser.

Arestiwyd y diffynnydd a'i gyfweld gan yr heddlu. Derbyniodd ei fod yn teimlo'n rhwystredig tuag at y dioddefwr oherwydd yr anaf i'w hymennydd gan weiddi arni ambell waith ond gwadodd iddo ymosod arni.

Collfarnwyd y diffynnydd am 3 o'r 5 digwyddiad honedig yn dilyn achos llawn lle llwyddodd y dioddefwr i gyflwyno tystiolaeth drwy gyfweiliad Sicrhau'r Dystiolaeth Orau ynghyd â chysylltiad byw o Lys y Goron Bournemouth i'w hatal rhag gorfod dychwelyd i'r ardal.

Roedd gan y dioddefwr hanes wedi ei ddogfennu o hunan-niwed rhwng 1993 ac 1999, sef mân friwiau i'w breichiau a hanes o golli ac ennill pwysau am yn ail a arweiniodd at gyfnodau yn yr ysbyty yn dioddef o anorecsia a effeithiodd yn amlwg ar ei hiechyd meddwl. Ymgeisiwyd yn gryf i gyflwyno'r holl fanylion hyn ac ar wahân i ddwy ffaith sylfaenol iawn a gytunwyd arnynt, cawsant eu gwrthod yn llwyddiannus gan atal y dioddefwr rhag cael ei chroesholi ynglŷn â materion hanesyddol.

Datganodd yr erlynydd fod cefndir y troseddu'n dangos patrwm cynyddol o fychanu, tansellio a bwlio yn seiliedig yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar anabledd y dioddefwr.

Darllenwyd Datganiad Personol Dioddefwr yn y llys.

Rhoddwyd dedfryd o 15 wythnos o garchar i'r diffynnydd wedi ei ohirio am 2 flynedd. Byddai hyn wedi bod yn gyfnod o 12 mis oni bai am y nodwedd waethygedig o elyniaeth anabledd. Cymeradwywyd gorchymyn atal o 4 blynedd hefyd.

## Astudiaeth achos

Roedd dioddefwyr yn yr achos hwn o **CPS Wessex** yn byw mewn byngalo dan reolaeth grŵp rheoli'n cynnig tai â chymorth i bobl bregus gydag anableddau dysgu. Bu LS yn byw yn y byngalo ers 5 mlynedd wedi iddo symud yno o ganlyniad i fwlio parhaus gan bobl ifanc lleol; a bu PE yn byw yno ers blwyddyn pan ddigwyddodd y troseddau. Roedd gan PE anabledd dysgu cymhedrol, anabledd iechyd meddwl ysgafn ac yn dioddef o awtistiaeth o bosibl. Roedd gan LS anabledd dysgu ysgafn, anabledd corfforol yn ei esgyrn o'i gluniau at ei draed a nam ar ei leferydd. Roedd y ddau'n derbyn cymorth gan staff y ganolfan ond nid oedd cymorth ar gael yn y byngalo ei hun.

Dros gyfnod o chwe mis bu'r dynion yn destun cyfres o ddigwyddiadau aflonyddol di-drais. Roedd y rhain yn cynnwys taro di-baid ar ffenestri a drysau, taflu cerrig a gorchuddio camera'r teledu cylch cyfyng. Gan fod yr Heddlu wedi eu cynghori i beidio â herio'r bobl ifanc, nid oeddent yn medru cyflwyno datganiadau ynghylch pwy oedd yn gyfrifol. Serch hynny, roedd teledu cylch cyfyng yn allweddol wrth lwyddo i adnabod y diffynyddion.

Cyfaddefodd y pedwar Diffynnydd iddynt fod yn rhan mewn mwy nag un digwyddiad a bod eu hymddygiad wedi achosi aflonyddwch, ofn a thrallod. Daeth yr achos ger bron y llys a phlediodd y pedwar yn euog i'r cyhuddiad. Dedfrydwyd tri o'r Diffynyddion wedi'r adroddiadau fel a ganlyn:

Gorchymyn adsefydlu pobl ifanc 12 mis gyda goruchwyliaeth, gwneud iawn, gwaharddiad rhag bod gyda'i gilydd am 6 mis a chyrrffw dyddiol am 3 mis rhwng 8pm a 7am.

Cyhoeddodd y llys mai trosedd casineb anabledd oedd hon gan ddatgan pa na bai hynny wedi bodoli yna byddai'r gorchymyn wedi ei roi am 6 nid 12 mis.

Rhodddwyd gorchymyn cadw a hyfforddi o 4 mis i'r pedwerydd Diffynnydd yn gyfochrog ag ail ddedfryd o 4 mis am dramgwyddo gorchymyn arall, gan greu cyfanswm o 8 mis yn y ddalfa. Cyhoeddodd y llys ymgodiad dedfryd sef y byddai'r ddedfryd wedi bod yn orchymyn adferiad ieuentid pa na bai'r mater wedi bod yn drosedd casineb. (Amrywiwyd y ddedfryd hon ar apêl i gyfanswm o 6 mis.)

Rhodddwyd gorchymyn cadw o 12 mis i'r pedwar gan eu hatal rhag mynd yn agos i'r byngalo na chysylltu â'r naill dioddefwr.

## Gweithio gyda'n gilydd

Penodwyd Cyfryngwr Cofrestredig (RI) cyn y treial yn yr achos hwn yn **CPS Gogledd Ddwyrain Lloegr**. Cyfarfu'r RI â'r tyst, N, sy'n dioddef o anableddau dysgu a chorfforol niferus, bythefnos cyn y treial. Cafodd yr Erlynydd adroddiad asesiad tyst gan yr RI a eglurodd natur anableddau N mewn mwy o fanylder na'r hyn a gafwyd yn flaenorol gan yr heddlu. Cyfeiriodd yr adroddiad at anghenion N o safbwynt iddo roi tystiolaeth a gofal tyst yn fwy cyffredinol. Galluogodd yr adroddiad i'r Erlynydd ddeall sut y byddai N yn ystyried yr hyn a ddigwyddodd iddo, a oedd o gymorth wrth ddehongli ei ddatganiad.

Bu i'r RI a'r Erlynydd dywys N o amgylch ystafell y llys. Cyfarfu N â'r Barnwr Rhanbarth, y Cynghorwr Cyfreithiol a chyfreithiwr yr amddiffyniad. Awgrymodd yr RI sut y gallai'r Erlynydd eirio cwestiynau yn ystod tystiolaeth *in chief* a alluogodd yr Erlynydd yn ei dro i wrthwynebu cwestiynau'n briodol gan yr amddiffyniad. Ymhellach, ar gais yr RI, rhodddwyd mewnwelediad i'r Erlynydd ynglŷn â'r newidiadau cynnil yn ymddygiad N a oedd yn arwydd o'i drallod cynyddol. Golygodd hyn ei bod hi'n medru gwneud cais am egwyl yn y treial cyn i N anesmwytho'n ddiangen a golygu hefyd nad oedd yn rhaid iddo gymryd egwyl hirach na ddymunai fel arall.

Llwyddodd cymorth yr RI i helpu'r Erlynydd gynllunio a chynnal y treial. Roedd hi'n medru cyfathrebu'n fwy hyderus gyda'r tyst ac nid oedd yn gorfod rheoli ymddygiad N ar ei phen ei hun, gan roi mwy o amser iddi ganolbwyntio ar ei swydd. Ymdopodd N â'r profiad o fod yn y llys. Bu i'r profiad fod yn llai pryderus i'w fam gan fod ei mab yn cael gofal. Dywedodd fod y profiad wedi rhoi mwy o hyder iddi yn y system llysoedd, oherwydd yn flaenorol pryderai na fyddai canlyniad cadarnhaol fyth yn bosibl.

# Ysgogi casineb

Mae troseddau casineb yn canolbwyntio ar elyniaeth neu ragfarn yn erbyn y grwpiau dan sylw. Mae gelyniaeth yn cael ei ddefnyddio yn ei ystyr arferol, bob dydd ac mae ei ddiffiniad yn y geiriadur yn awgrymu dymuno'r gwaethaf, diffyg cyfeillgarwch, malais, casineb, rhagfarn, dicllondeb a drwg hoffi. Ond mae'r troseddau trefn gyhoeddus o ysgogi casineb yn canolbwyntio ar gasineb ei hun a'r bwriad neu effaith tebygol y drosedd dan sylw. Dyma'r drydedd flwyddyn i ni roi adroddiad ar yr erlyniadau hyn ac mae'r diddordeb yn y maes hwn o'n gwaith yn parhau.

## Y Data

Rhoddir ystyriaeth lle bydd gwrthdaro posibl gyda hawl rhyddid mynegiant a llefaru'r unigolyn. Un o ganlyniadau hyn yw bod nifer yr achosion o ysgogi yn llawer is nag ar gyfer troseddau casineb.

Cyfeirir achosion posibl at yr Isadran Troseddau Arbennig a Gwrthderfysgaeth gan Ardaloedd CPS yn unol â Chyfarwyddyd Cyfreithiol y CPS ar Erlyn Achosion o Droseddau Hiliol neu Grefyddol, ac ar gyfer Annog Casineb ar Sail Cyfeiriadedd Rhywiol. Cafwyd un erlyniad llwyddiannus yn ymwneud â dosbarthu, dangos neu chwarae recordiad gyda'r bwriad o annog casineb hiliol, yn groes i adran 21 o'r Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986. Plediodd y diffynnydd yn euog a chafodd 12 mis o garchar ynghyd â gorchymyn fforffedu ac ASBO wedi ei orfodi.

Bydd achosion sy'n cael eu cyfeirio yn gyntaf fel digwyddiadau posibl o ysgogi/annog casineb, yn cael eu hasesu yn ganolog ac os nad yw'r dystiolaeth yn cefnogi erlyniad dan y darpariaethau hyn, gellir eu dychwelyd i Ardaloedd gyda'r awgrym y dylid dilyn dewisiadau eraill. O safbwynt erlyniadau sy'n ymwneud â chyfathrebu drwy gyfryngau cymdeithasol, gall hyn olygu bod y drosedd briodol yn bodoli dan ddeddfwriaeth arall. Mae'r astudiaeth achos isod yn cynnig enghraifft.

### Astudiaeth Achos

Dedfrydwyd y diffynnydd yn yr achos hwn i 12 mis o garchar a gorchymyn ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASBO) am ddsbarthu fideos ohono'i hun mewn digwyddiad asgell dde eithafol ar safle cyfrwng cymdeithasol. Plediodd yn euog i un achos o annog casineb hiliol, yn groes i adran 21 o'r Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986, mewn gwrandawriad yn Llys y Goron Wolverhampton.

Dywedodd cyfreithiwr arbenigol o Adran Troseddau Arbennig a Gwrthderfysgaeth y CPS: "Roedd y tri fideo o'r diffynnydd a roddwyd ar Facebook yn ei ddangos mewn gwisg Ku Klux Klan yn hongian dol 'golliwog' maint llawn. Dyma weithred gydag arwyddocâd hiliol amlwg iawn, a dangosodd ei ddsbarthiad o'r fideos ar sianelau cyfryngau cymdeithasol agored fwriad clir i annog casineb.

Er bod rhyddid i lefaru yn hawl i unrhyw unigolyn yn ein democratiaeth, mae gan bawb yr hawl hefyd i gael eu diogelu'n gyfreithiol a dyna pam yr ydym yn ystyried troseddau hiliol, ynghyd â throseddau casineb, yn neilltuol o ddifrifol; gan eu bod yn tansellio hawl pobl i deimlo'n ddiogel.

Tra bod hawl gan bobl i ddal safbwyntiau eithafol y gall eraill eu hystyried yn annymunol neu'n ffiائد, nid oes ganddynt yr hawl i gylchu'r safbwyntiau hynny mewn modd bygythiol gyda'r bwriad o annog casineb. Mae ymddygiad sy'n annog rhagfarn a chasineb yn tansellio rhyddid pobl sy'n byw yn ôl y gyfraith ac ni oddefir hynny yn ein cymdeithas."

## Astudiaeth achos

Carcharwyd y diffynnydd yn yr achos hwn am gyfnod gofynnol o 40 mlynedd gan yr Old Bailey. Plediodd yn euog i un achos o lofruddiaeth, un achos o achosi ffrwydriad gan dramgwyddo adran 2 o Ddeddf Sylweddau Ffrwydrol 1883 ac un achos o gymryd rhan mewn ymgyrchoedd i baratoi ar gyfer gweithredoedd terfsgol gan dramgwyddo adran 5(1) o Ddeddf Terfysgaeth 2006.

Dywedodd cyfreithiwr ar ran Adran Gwrthderfysgaeth y CPS: "Mae'n ddyn peryglus gydag agenda beryglus. Ddiwrnod yn unig wedi iddo gyrraedd Prydain o'r Ukrain, roedd yn ymchwilio gwefannau asgell dde eithafol, yn cynnwys rhai sy'n gysylltiedig â llofruddion hiliol a gollfarnwyd yn Rwsia.

Arweiniodd ei safbwyntiau hiliol hunan-gyffesol at ymgyrch o derfysgaeth, a ddechreuodd gyda llofruddiaeth greulon unigolyn 82 oed yn cerdded adref o Fosg ar ôl gweddïau min nos. Yn ystod y dyddiau dilynol, aeth ati i danio tair dyfais ffrwydrol ger mosgiau yn yr ardal, gyda'r bom yn Tipton wedi ei amseru'n fwriadol i gydfynd â chychwyn amser gweddïo.

Mae'r achos yn llwyddo i atgoffa'n glir iawn y cysylltiad rhwng deunydd eithafol a'r bygythiad gwirioneddol iawn sydd i fywyd gan y rhai sydd â mynediad at y deunydd hwnnw. Mae'n fodd o atgoffa hefyd bod bygythiad terfysgaeth yn deillio o ystod eang o safbwyntiau casineb.

Rwy'n falch, yn sgil cryfder ein hachos, iddo bledio'n euog, gan sicrhau nad oedd raid i deulu'r dioddefwr eistedd drwv'r achos cvfan. Estvnnaf fv nahvdmdeimlad dwvsaf



# Troseddau yn erbyn pobl hŷn

Er nad oes diffiniad statudol o drosedd yn erbyn unigolyn hŷn (CAOP) ac nad oes trosedd statudol gyffredinol, mae'r CPS yn defnyddio'r faner CAOP ar gyfer troseddau dan yr amgylchiadau canlynol:

- Pan fydd perthynas a disgwyliad o ymddiriedaeth e.e. ymosodiad/lladrad gan ofalwr neu aelod o'r teulu;
- Sydd wedi eu targedu'n benodol at yr unigolyn hŷn oherwydd eu bod yn cael eu canfod fel rhywun bregus neu'n 'darged hawdd' e.e. byrgleriaeth tynnu sylw neu ffgio;
- Pan na fydd y drosedd ar y dechrau yn gysylltiedig ag oed yr unigolyn hŷn ond ei bod yn nes ymlaen e.e. byrgleriaeth pan nad yw'r byrgler yn gwybod beth yw oed deiliad y cartref ond yn nes ymlaen mae'n manteisio ar y sefyllfa wrth ganfod bod y deiliad yn unigolyn hŷn;
- Pan fydd troseddau yn ymddangos fel petaent wedi eu hysgogi'n rhannol, neu'n gyfan gwbl, gan elyniaeth seiliedig ar oed, neu oed tybiedig e.e. ymosodiad, aflonyddu neu ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymwneud â datganiadau sarhaus yn gysylltiedig ag oedran y dioddefwr a
- Phan fydd troseddwr yn fwriadol yn targedu unigolyn hŷn oherwydd ei elyniaeth neu ei gelyniaeth tuag at bobl hŷn bydd yn cyfateb i ffactor waethgol, fel y bydd targedu unrhyw un sy'n fregus.

Yn ystod y flwyddyn, bu nifer o ymyriadau Llywodraethol allweddol mewn perthynas â dementia. Mewn cydnabyddiaeth o raddfa'r mater a'i amlygrwydd cynyddol, paratowyd adroddiad byr ar gyfer y Fforwm Atebolrwydd Cymunedol a amlygodd rhai o'r goblygiadau ar gyfer cyfiawnder troseddol a'n parodrwydd ar gyfer hyn.

Mae'r polisi Troseddau yn Erbyn Pobl Hŷn yn cyfeirio'n benodol at ddementia:

"Gall pob hŷn gyda dementia neu afiechydon eraill yn gysylltiedig ag oed, brofi amrywiaeth yn eu galluedd i ddeall gwybodaeth. Golyga hyn nid yn unig y gall eu galluedd i ddeall gwybodaeth a gwneud penderfyniadau amrywio dros gyfnod byr o amser, gall amrywio hefyd yn ddibynnol ar wahanol fathau o benderfyniadau. Er enghraifft, gall unigolyn gyda galluedd amrywiol fedru penderfynu rhoi datganiad tyst ond ddim yn medru deall sut i gymryd rhan ym mhroses y llys a gwneud penderfyniadau yng nghyd-destun hynny.

Mae gan bobl hŷn gyda dementia yr un hawliau ag unrhyw ddiodeffwr a thyst o safbwynt cael gwasanaeth cyfartal ac yr un mor agored. Ni fyddwn yn rhagdybio ynglŷn â dibynadwyedd neu hygredded diodeffwr sydd â galluedd amrywiol.

Byddwn yn ystyried beth ellir ei wneud i gefnogi pob hŷn fedru rhoi'r dystiolaeth orau posibl (gweler gwybodaeth mesurau arbennig yn adran 7) ac i geisio ffynonellau eraill o dystiolaeth a thystion eraill i gefnogi achos yr erlyniad.

Pan na fydd gan dyst hŷn y gallu i wneud penderfyniad mewn perthynas â'r achos, byddwn yn gweithio gyda chynrychiolydd ef neu hi yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005."

Mae ymchwil a gwblhawyd gan Gymdeithas Alzheimer yn awgrymu cynnydd cyson hyd at 25% yn y nifer o bobl yn y DU hyd at 2026, a chynnydd dros 50% erbyn 2051. Yng Nghymru a Lloegr, roedd y nifer o bobl sy'n dioddef o ddementia yn 2012 yn 709,663. Byddai cynnydd ar y raddfa a ragwelir yn golygu ffigwr a fydd yn cynyddu hyd at 887,079 erbyn 2026 a 1,064,495 erbyn 2051. <http://www.alzheimers.org.uk/>

Mae pobl sy'n dioddef o ddementia mewn perygl o fod yn ddiodefwyr troseddau gan ddieithriad yn ogystal â phobl maent yn eu hadnabod. Roedd cyfraddau erledigaeth neu ddiodefwyr faint pobl sydd af afiechyd meddwl difrifol 2.5 gwaith yn uwch nag yn y boblogaeth gyffredinol (Hiday et al, 1999). Mae canrannau uchel (50%) o bobl sy'n dioddef o ddementia yn profi camdriniaeth, yn cynnwys camdriniaeth gan ofalwyr (47%) (NCEA, 2009, 2010). <http://www.ncea.aoa.gov/Library/Data/index.aspx>

Awgryma'r ffeithiau hyn y dylai cymdeithas yn gyffredinol ddisgwyl cynnydd yn yr achosion o ddementia dros y degawdau nesaf. Mae perygl dan yr amgylchiadau hynny i'r weld cynnydd cyfatebol yn y nifer o ddiodefwyr a throseddwyr. Mae diodefwyr a thystion sydd â dementia'n wynebu gwahanol heriau wrth ymgysylltu â'r System Cyfiawnder Troseddol, yn cynnwys cwestiynau ynghylch eu galluedd meddyliol, cymhwysedd i roi tystiolaeth a'u hygredd fel tystion. Gall dibyniaeth ar dystiolaeth lafar roi tyst sy'n dioddef o ddementia mewn sefyllf ao anfantais.


Disgwylir diwygio canllawiau cyfreithiol ar iechyd meddwl ac anableddau dysgu yn 2014/15 a chymerir y cyfle i weld pa gymorth ychwanegol gellir ei ddarparu ar gyfer erlynwyr wrth iddynt adnabod a delio ag achosion sy'n ymwneud â phobl sy'n dioddef o ddementia.

## **Ystadegau a thablau wedi eu cyfuno**

Yn 2013/14, cynyddodd y nifer o achosion a gyfeiriwyd atom gan yr heddlu o 2,832 i 3,317. Cynyddodd y gyfran o'r achosion hyn y cafwyd cyhuddiad ynddynt o'u cymharu â ffigwr y flwyddyn flaenorol (78.6%) ac mae'n awr yn 79.8% o'r holl benderfyniadau cyn cyhuddo. Roedd y gyfran yn 2008/09 yn 78.9%.

Mae Graff 11 isod yn dangos bod yr erlyniadau'r llynedd yn cyfrif am 81.1% o'r holl erlyniadau, sef yr un gyfran â'r flwyddyn flaenorol pan gwblhawyd llai o achosion: 2,922 o'i gymharu â 2,886. Mae'r duedd yn dangos gwelliant parhaus ers 2008/09, pan oedd y gyfradd gollfarnu yn 78.7%.

### Graff 11: Cyfraddau collfarnu troseddau yn erbyn pobl hŷn 2008/09 i 2013/14



Fel y dangosir yn Nhabl 12, mae'r nifer o erlyniadau a gwblhawyd wedi cynyddu'n gyson ers 2008/09 o 1,004 i 2,922.

Ers 2008/09, mae'r nifer a chyfran o bleon euog hefyd wedi cynyddu o 707 (70.4%) i 2,131 (72.9%).

Mae'r gyfran o achosion sy'n methu oherwydd materion dioddefwyr wedi cynyddu o 14.0% (30) yn 2008/09 i 25.1% (139) yn 2013/14.

**Tabl 12 - Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Canlyniad**

	2008 - 09		2009 - 10		2010 - 11		2011 - 12		2012 - 13		2013 - 14	
	Cyf	%	Cyf	%	Cyf	%	Cyf	%	Cyf	%	Cyf	%
Collfarnau	790	78.7%	1,641	82.3%	2,259	80.0%	2,332	81.3%	2,340	81.1%	2,369	81.1%
Aflwyddiannus	214	21.3%	352	17.7%	563	20.0%	535	18.7%	546	18.9%	553	18.9%
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,004</b>		<b>1,993</b>		<b>2,822</b>		<b>2,867</b>		<b>2,886</b>		<b>2,922</b>	

Roedd 78.2% o'r **diffynyddion** yn ddyinion, ffigur sydd wedi parhau i fod yn weddol gyson ers 2008/09 pan oedd yn 75.7%. Yn ystod y cyfnod cododd cyfanswm y nifer o ddiffynyddion gwrywaidd o 760 i 2,286.

Mae cofnodi rhyw'r dioddefydd wedi gwella o 60.1% o'r holl ddiodefwyr yn 2008/09 i 77.2% yn 2013/14. O ganlyniad i welliannau wrth nodi troseddau yn erbyn pobl hŷn a chywirdeb y cofnodi, mae ein dealltwriaeth o'r troseddau hyn wedi gwella. Rydym yn gwybod yn awr mai'r gyfran o ddiodefwyr sy'n fenywod yw 44.1% gyda dynion yn cael eu dynodi yn ddiodefwyr mewn 33.1% o achosion. Yn 2008/09, roedd y ffigurau hyn yn 36.0% a 24.1% yn ôl y drefn honno. Yr her o hyd yw dynodi nid yn unig ryw'r holl ddiodefwyr ond nodweddion personol eraill fel y'u diffinnir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'r drosedd hon a'n gwasanaethau i'w diodefwyr.

Ar ddiwedd erlyniad, mae achosion yn cael **prif gategori trosedd** i ddangos math a difrifoldeb y cyhuddiadau a wnaethpwyd. Mae tabl 13 isod yn dangos categorïau troseddau ar gyfer troseddau yn erbyn pobl hŷn.

Tabl 13 Categoriâu Prif Droseddau – Troseddau yn Erbyn Pobl Hŷn

	2011/12	2012/13	2013/14
Lladdiad	1.4%	1.2%	1.1%
Troseddau yn erbyn yr unigolyn	25.7%	23.4%	27.4%
Troseddau Rhywiol	1.6%	1.2%	1.9%
Byrgleriaeth	22.0%	24.5%	21.7%
Lladrad	9.7%	7.5%	7.7%
Dwyn a Thrin	17.9%	18.5%	17.1%
Twyll a Ffugiad	11.5%	14.5%	12.3%
Difrod Troseddol	3.4%	3.1%	3.8%
Troseddau Cyffuriau	0.6%	0.8%	1.1%
Troseddau Trefn Gyhoeddus	2.0%	2.3%	1.8%

Tra y gellir gweld y bu cynnydd yn y cyhuddiadau Troseddau yn erbyn yr Unigolyn, sydd yn duedd sy'n peri gofid ynddo'i hun, mae'r darlun ehangach i'w weld yn canolbwyntio ar droseddau o ecsbloitiaeth gyda phwyslais ar elwa'n ariannol. Mae'r data ar gyfer Twyll a Ffugiad yn dangos cwmp dros y flwyddyn a all fod yn ganlyniad gwell ymwybyddiaeth ac adrodd achosion o dwyll drefnedig.

## Perfformiad ardaloedd

Yn 2013/14, dangosir y tair Ardal a berfformiodd orau o ran cyfraddau collfarnu am droseddau yn erbyn pobl hŷn o'u cymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol yn Nhabl 14 isod:

**Tabl 14: Erlyniadau yn ôl canlyniad ar gyfer pob trosedd yn erbyn pobl hŷn yn amlygu'r tair Ardal CPS sy'n perfformio orau o'u cymharu â'r ystadegau cenedlaethol**

	Collfarnau		Aflwyddiannus		Cyfanswm
	Nifer	%	Nifer	%	
Cenedlaethol	2,369	81.1%	553	18.9%	2,922
Glannau Mersi a Swydd Gaer	117	86.0%	19	14.0%	136
Gogledd Orllewin Lloegr	277	85.5%	47	14.5%	324
Gogledd Ddwyrain Lloegr	134	85.4%	23	14.6%	157

Yr Ardaloedd CPS a gofnododd y cynnydd mwyaf mewn erlyniadau o droseddau yn erbyn pobl hŷn oedd: Llundain (16.9%) Dwyrain Lloegr (16.4%) a De Orllewin Lloegr (11.8%).

## Astudiaeth achos

Mewn achos gan **CPS Glannau Mersi-Swydd Gaer** carcharwyd gwraig am 33 mis a ddisgrifiwyd fel "lleidr gyrfa" wedi iddi dargedu menywod oedrannus. Cyhuddwyd y diffynnydd o ddwyn wedi iddi ddwyn pwrs menyw 80 oed mewn siop. Yn anffodus, collodd y dioddefwr nid yn unig ei harian a'i phwrs, ond eitem sentimental a gollwyd am byth.

Clywodd Llys y Goron Lerpwl fod y diffynnydd allan o'r carchar ar drwydded yn dilyn trosedd flaenorol am ddwyn pan dargedodd ei dioddefwr diweddaraf.

Dyweddodd y barnwr yn yr achos fod y diffynnydd angen, "newid arferion oes" os oedd hi am osgoi cael ei rhoi yn y carchar yn y dyfodol. Dywedodd ei bod hi'n arbenigo fel lleidr pocedi a oedd yn dwyn oddi wrth menywod oedrannus gan achosi trallod a sioc iddynt.

Dyweddod Martin McRobb, Eiriolwr y Goron: "Disgrifiwyd y diffynnydd fel lleidr gyrfa ac adlewyrchir difrifoldeb yr hyn a wnaeth yn y cyfnod o garchar a roddwyd iddi."

## Astudiaeth achos

Dedfrydwyd pedwar gweithiwr gofal yn Llys y Goron Preston am gam-drin preswylwyr oedrannus mewn cartref nyrsio yng Nghaerhirfryn. Cyflawnodd y pedwar diffynnydd droseddau dan adran 44 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn erbyn preswylwyr nad oeddynt, fel dioddefwyr bregus, â'r galluedd i adrodd am y troseddau yn bersonol. Roedd y gweithwyr gofal mewn swyddi o ymddiriedaeth gyda chyfrifoldeb am les y preswylwyr.

Cawsant ddedfrydau'n amrywio o wyth i bedwar mis o garchar a chafodd un Orchymyn Cymunedol o 12 mis a chwblhau 40 awr o waith di-dâl.

Dyweddodd Joanne Cunliffe, Eiriolwr y Goron ar gyfer Uned Gwaith Achos Cymhleth CPS Gogledd Orllewin Lloegr:

"Heddiw cafodd pedwar diffynnydd eu dedfrydu am droseddau gwarthus a gyflawnwyd ganddynt yn erbyn dioddefwyr oedrannus a bregus, sef pobl yr oeddynt i fod i ofalu amdanynt.

"Mae'r CPS yn delio ag unrhyw achos o gam-drin pobl hŷn yn ddifrifol iawn, a buom yn benderfynol iawn o ddod â'r diffynnyddion hyn o flaen eu gwell am y troseddau hyn. Rydym wedi ymrwmo i erlyn troseddau yn erbyn pobl hŷn a diogelu'r rhai bregus, a lle ceir tystiolaeth o gam-drin neu ddiffyg gofal, gall cyflawnwyr y gamdriniaeth honno ddisgwyl cael eu dwyn ger bron y llysoedd a'u herlyn yn llym.

"Unwaith eto hoffwn ddiolch i'r tystion a gamodd ymlaen ac a gefnogodd achos yr erlyniad a hoffwn dalu teyrnged hefyd i deuluoedd y dioddefwyr. Er na all yr un ddedfryd unioni'r boen a'r trallod a achoswyd gan weithrediadau'r diffynnyddion hyn, gobeithiaf y bydd y

Troseddau Casineb	Erlyniadau CPS 2013 - 2014				Cyfanswm
	Collfarnau		Aflwyddiannus		
	Nifer	%	Nifer	%	
<b>42 o Ardaloedd</b>	<b>11,915</b>	<b>84.7%</b>	<b>2,159</b>	<b>15.3%</b>	<b>14,074</b>
<b>Cymru</b>	<b>617</b>	<b>87.5%</b>	<b>88</b>	<b>12.5%</b>	<b>705</b>
Dyfed Powys	32	86.5%	5	13.5%	37
Gwent	101	85.6%	17	14.4%	118
Gogledd Cymru	137	90.7%	14	9.3%	151
De Cymru	347	87.0%	52	13.0%	399
<b>Dwyreiniol</b>	<b>661</b>	<b>87.3%</b>	<b>96</b>	<b>12.7%</b>	<b>757</b>
Swydd Gaergrawnt	138	86.8%	21	13.2%	159
Essex	279	88.0%	38	12.0%	317
Norfolk	148	83.6%	29	16.4%	177
Suffolk	96	92.3%	8	7.7%	104
<b>Dwyrain Canolbarth Lloegr</b>	<b>915</b>	<b>86.3%</b>	<b>145</b>	<b>13.7%</b>	<b>1,060</b>
Swydd Derby	156	83.0%	32	17.0%	188
Swydd Gaerlŷr	299	91.2%	29	8.8%	328
Swydd Lincoln	90	90.0%	10	10.0 %	100
Swydd Northampton	115	82.1%	25	17.9%	140
Swydd Nottingham	255	83.9%	49	16.1%	304
<b>Llundain</b>	<b>2,464</b>	<b>82.1%</b>	<b>537</b>	<b>17.9%</b>	<b>3,001</b>
<b>Glannau Mersi a Swydd Gaer</b>	<b>640</b>	<b>85.9%</b>	<b>105</b>	<b>14.1%</b>	<b>745</b>
Swydd Gaer	185	88.1%	25	11.9%	210
Glannau Mersi	455	85.0%	80	15.0%	535
<b>Gogledd Ddwyrain Lloegr</b>	<b>494</b>	<b>82.1%</b>	<b>108</b>	<b>17.9%</b>	<b>602</b>
Cleveland	110	79.1%	29	20.9%	139
Durham	91	85.8%	15	14.2%	106
Northumbria	293	82.1%	64	17.9%	357
<b>Gogledd Orllewin Lloegr</b>	<b>1,378</b>	<b>88.8%</b>	<b>174</b>	<b>11.2%</b>	<b>1,552</b>
Cumbria	84	94.4%	5	5.6%	89
Manceinion Fwyaf	857	88.4%	113	11.6%	970
Swydd Gaerhirfryn	437	88.6%	56	11.4%	493
<b>De Ddwyrain Lloegr</b>	<b>666</b>	<b>82.3%</b>	<b>143</b>	<b>17.7%</b>	<b>809</b>
Caint	255	83.9%	49	16.1%	304
Surrey	152	77.9%	43	22.1%	195
Sussex	259	83.5%	51	16.5%	310
<b>De Orllewin Lloegr</b>	<b>635</b>	<b>89.2%</b>	<b>77</b>	<b>10.8%</b>	<b>712</b>
Avon a Gwlad yr Haf	391	87.7%	55	12.3%	446
Dyfnaint a Chernyw	186	91.2%	18	8.8%	204
Swydd Gaerloyw	58	93.5%	4	6.5%	62
<b>Tafwys a Chiltern</b>	<b>701</b>	<b>81.5%</b>	<b>159</b>	<b>18.5%</b>	<b>860</b>
Swydd Bedford	95	83.3%	19	16.7%	114
Swydd Hertford	207	83.8%	40	16.2%	247
Dyffryn Tafwys	399	80.0%	100	20.0%	499
<b>Wessex</b>	<b>500</b>	<b>86.1%</b>	<b>81</b>	<b>13.9%</b>	<b>581</b>
Dorset	66	83.5%	13	16.5%	79
Hampshire ac Ynys Wyth	367	86.2%	59	13.8%	426
Wiltshire	67	88.2%	9	11.8%	76
<b>Gorllewin Canolbarth Lloegr</b>	<b>1,255</b>	<b>83.9%</b>	<b>240</b>	<b>16.1%</b>	<b>1,495</b>
Swydd Stafford	192	85.7%	32	14.3%	224
Swydd Warwick	56	88.9%	7	11.1%	63
Gorllewin Mersia	128	82.6%	27	17.4%	155
Gorllewin Canolbarth Lloegr	879	83.5%	174	16.5%	1,053

<b>Swydd Efrog a Glannau Humber</b>	<b>989</b>	<b>82.8%</b>	<b>206</b>	<b>17.2%</b>	<b>1,195</b>
Glannau Humber	192	87.3%	28	12.7%	220
Gogledd Swydd Efrog	82	83.7%	16	16.3%	98
De Swydd Efrog	194	97.0%	29	13.0%	223
Gorllewin Swydd Efrog	521	79.7%	133	20.3%	654
<b>Troseddau casineb hiliol a chrefyddol</b>	<b>Erlyniadau CPS 2013 - 2014</b>				
	<b>Collfarnau</b>		<b>Aflwyddiannus</b>		<b>Cyfanswm</b>
	Nifer	%	Nifer	%	
<b>42 o Ardaloedd</b>	<b>10,532</b>	<b>85.2%</b>	<b>1,836</b>	<b>14.8%</b>	<b>12,368</b>
<b>Cymru</b>	<b>502</b>	<b>88.8%</b>	<b>63</b>	<b>11.2%</b>	<b>565</b>
Dyfed Powys	20	90.9%	2	9.1%	22
Gwent	85	89.5%	10	10.5%	95
Gogledd Cymru	111	91.7%	10	8.3%	121
De Cymru	286	87.5%	41	12.5%	327
<b>Dwyreiniol</b>	<b>594</b>	<b>88.9%</b>	<b>74</b>	<b>11.1%</b>	<b>668</b>
Swydd Gaergrawnt	128	88.3%	17	11.7%	145
Essex	249	88.9%	31	11.1%	280
Norfolk	130	85.5%	22	14.5%	152
Suffolk	87	95.6%	4	4.4%	91
<b>Dwyrain Canolbarth Lloegr</b>	<b>824</b>	<b>86.6%</b>	<b>127</b>	<b>13.4%</b>	<b>951</b>
Swydd Derby	145	83.8%	28	16.2%	173
Swydd Gaerlŷr	266	90.5%	28	11.2%	294
Swydd Lincoln	79	88.8%	10	11.2%	89
Swydd Northampton	101	84.2%	19	15.8%	120
Swydd Nottingham	233	84.7%	42	15.3%	275
<b>Llundain</b>	<b>2,273</b>	<b>82.6%</b>	<b>479</b>	<b>17.4%</b>	<b>2,752</b>
<b>Glannau Mersi a Swydd Gaer</b>	<b>520</b>	<b>86.1%</b>	<b>84</b>	<b>13.9%</b>	<b>604</b>
Swydd Gaer	155	88.6%	20	11.4	175
Glannau Mersi	365	85.1%	64	14.9%	429
<b>Gogledd Ddwyrain Lloegr</b>	<b>426</b>	<b>83.2%</b>	<b>86</b>	<b>16.8%</b>	<b>512</b>
Cleveland	96	82.8%	20	17.2%	116
Durham	72	88.9%	9	11.1%	81
Northumbria	258	81.9%	57	18.1%	315
<b>Gogledd Orllewin Lloegr</b>	<b>1,166</b>	<b>88.6%</b>	<b>150</b>	<b>11.4%</b>	<b>1,316</b>
Cumbria	73	93.6%	5	6.4%	78
Manceinion Fwyaf	738	88.2%	99	11.8%	837
Swydd Gaerhirfryn	355	88.5%	46	11.5%	401
<b>De Ddwyrain Lloegr</b>	<b>595</b>	<b>82.3%</b>	<b>128</b>	<b>17.7%</b>	<b>723</b>
Caint	238	83.5%	47	16.5%	285
Surrey	140	77.3%	41	22.7%	181
Sussex	217	84.4%	40	15.6%	257
<b>De Orllewin Lloegr</b>	<b>552</b>	<b>88.9%</b>	<b>69</b>	<b>11.1%</b>	<b>621</b>
Avon a Gwlad yr Haf	347	87.2%	51	12.8%	398
Dyfnaint a Chernyw	157	90.8%	16	9.2%	173
Swydd Gaerloyw	48	96.0%	2	4.0%	50
<b>Tafwys a Chiltern</b>	<b>641</b>	<b>81.1%</b>	<b>146</b>	<b>18.6%</b>	<b>787</b>
Swydd Bedford	84	84.0%	16	16.0%	100
Swydd Hertford	190	82.6%	40	17.4%	230
Dyffryn Tafwys	367	80.3%	90	19.7%	457
<b>Wessex</b>	<b>432</b>	<b>86.6%</b>	<b>67</b>	<b>13.4%</b>	<b>499</b>
Dorset	55	83.3%	11	16.7%	66
Hampshire ac Ynys Wyth	316	86.6%	49	13.4%	365
Wiltshire	61	89.7%	7	10.3%	68
<b>Gorllewin Canolbarth</b>	<b>1,125</b>	<b>84.8%</b>	<b>201</b>	<b>15.2%</b>	<b>1,326</b>

<b>Lloegr</b>					
Swydd Stafford	167	86.5%	26	13.5%	193
Swydd Warwick	50	94.3%	3	5.7%	53
Gorllewin Mersia	107	81.1%	25	18.9%	132
Gorllewin Canolbarth Lloegr	801	84.5%	147	15.5%	948
<b>Swydd Efrog a Glannau Humber</b>	<b>882</b>	<b>84.5%</b>	<b>162</b>	<b>15.5%</b>	<b>1,044</b>
Glannau Humber	163	89.1%	20	10.9%	183
Gogledd Swydd Efrog	72	82.8%	15	17.2%	87
De Swydd Efrog	163	88.1%	22	11.9%	185
Gorllewin Swydd Efrog	484	82.2%	105	17.8%	598
<b>Troseddau casineb homoffobaidd a thrawsffobaidd</b>	<b>Erlyniadau CPS 2013 - 2014</b>				
	<b>Collfarnau</b>		<b>Aflwyddiannus</b>		<b>Cyfanswm</b>
	Nifer	%	Nifer	%	
<b>42 o Ardaloedd</b>	<b>913</b>	<b>80.7%</b>	<b>219</b>	<b>19.3%</b>	<b>1,132</b>
<b>Cymru</b>	<b>55</b>	<b>82.1%</b>	<b>12</b>	<b>17.9%</b>	<b>67</b>
Dyfed Powys	3	100.0%	0	0.0%	3
Gwent	5	83.3%	1	16.7%	6
Gogledd Cymru	11	73.3%	4	26.7%	15
De Cymru	36	83.7%	7	16.3%	43
<b>Dwyreiniol</b>	<b>42</b>	<b>72.4%</b>	<b>16</b>	<b>27.6%</b>	<b>58</b>
Swydd Gaergrawnt	5	83.3%	1	16.7%	6
Essex	18	75.0%	6	25.0%	24
Norfolk	15	68.2%	7	31.8%	22
Suffolk	4	66.7%	2	33.3%	6
<b>Dwyrain Canolbarth Lloegr</b>	<b>61</b>	<b>81.3%</b>	<b>14</b>	<b>18.7%</b>	<b>75</b>
Swydd Derby	4	50.0%	4	50.0%	8
Swydd Gaerlŷr	24	96.0%	1	4.0%	25
Swydd Lincoln	10	100.0%	0	0.0%	10
Swydd Northampton	9	69.2%	4	30.8%	13
Swydd Nottingham	14	73.7%	5	26.3%	19
<b>Llundain</b>	<b>149</b>	<b>75.6%</b>	<b>48</b>	<b>24.4%</b>	<b>197</b>
<b>Glannau Mersi a Swydd Gaer</b>	<b>73</b>	<b>83.9%</b>	<b>14</b>	<b>16.1%</b>	<b>87</b>
Swydd Gaer	18	81.8%	4	18.2%	22
Glannau Mersi	55	84.6%	10	15.4%	65
<b>Gogledd Ddwyrain Lloegr</b>	<b>32</b>	<b>72.7%</b>	<b>12</b>	<b>27.3%</b>	<b>44</b>
Cleveland	4	66.7%	2	33.3%	6
Durham	14	70.0%	6	30.0%	20
Northumbria	14	77.8%	4	22.2%	18
<b>Gogledd Orllewin Lloegr</b>	<b>137</b>	<b>88.4%</b>	<b>18</b>	<b>11.6%</b>	<b>155</b>
Cumbria	5	100.0%	0	0.0%	5
Manceinion Fwyaf	79	87.8%	11	12.2%	90
Swydd Gaerhirfryn	53	88.3%	7	11.7%	60
<b>De Ddwyrain Lloegr</b>	<b>52</b>	<b>80.0%</b>	<b>13</b>	<b>20.0%</b>	<b>65</b>
Caint	12	85.7%	2	14.3%	14
Surrey	6	75.0%	2	25.0%	8
Sussex	34	79.1%	9	20.9%	43
<b>De Orllewin Lloegr</b>	<b>63</b>	<b>92.6%</b>	<b>5</b>	<b>7.4%</b>	<b>68</b>
Avon a Gwlad yr Haf	37	97.4%	1	2.6%	38
Dyfnaint a Chernyw	20	90.9%	2	9.1%	22
Swydd Gaerloyw	6	75.0%	2	25.0%	8
<b>Tafwys a Chiltern</b>	<b>47</b>	<b>92.2%</b>	<b>4</b>	<b>7.8%</b>	<b>51</b>
Swydd Bedford	10	100.0%	0	0.0%	10
Swydd Hertford	13	100.0%	0	0.0%	13



Dyffryn Tafwys	24	85.7%	4	14.3%	28
<b>Wessex</b>	<b>55</b>	<b>84.6%</b>	<b>10</b>	<b>15.4%</b>	<b>65</b>
Dorset	10	90.9%	1	9.1%	11
Hampshire ac Ynys Wyth	40	85.1%	7	14.9%	47
Wiltshire	5	71.4%	2	28.6%	7
<b>Gorllewin Canolbarth Lloegr</b>	<b>85</b>	<b>74.6%</b>	<b>29</b>	<b>25.4%</b>	<b>114</b>
Swydd Stafford	12	70.6%	5	29.4%	17
Swydd Warwick	4	80.0%	1	20.0%	5
Gorllewin Mersia	11	91.7%	1	8.3%	12
Gorllewin Canolbarth Lloegr	58	72.5%	22	27.5%	80
<b>Swydd Efrog a Glannau Humber</b>	<b>62</b>	<b>72.1%</b>	<b>24</b>	<b>27.9%</b>	<b>86</b>
Glannau Humber	14	87.5%	2	12.5%	16
Gogledd Swydd Efrog	6	100.0%	0	0.0%	6
De Swydd Efrog	1815	71.4%	6	28.6%	21
Gorllewin Swydd Efrog	27	62.8%	16	37.2%	43
<b>Troseddau casineb anabledd</b>	<b>Erlyniadau CPS 2013 - 2014</b>				
	<b>Collfarnau</b>		<b>Aflwyddiannus</b>		<b>Cyfanswm</b>
	Nifer	%	Nifer	%	
<b>42 o Ardaloedd</b>	<b>470</b>	<b>81.9%</b>	<b>104</b>	<b>18.1%</b>	<b>574</b>
<b>Cymru</b>	<b>60</b>	<b>82.2%</b>	<b>13</b>	<b>17.8%</b>	<b>73</b>
Dyfed Powys	9	75.0%	3	25.0%	12
Gwent	11	64.7%	6	35.3%	17
Gogledd Cymru	15	100.0%	0	0.0%	15
De Cymru	25	86.2%	4	13.8%	29
<b>Dwyreiniol</b>	<b>25</b>	<b>80.6%</b>	<b>6</b>	<b>19.4%</b>	<b>31</b>
Swydd Gaergrawnt	5	62.0%	3	37.5%	8
Essex	12	92.3%	1	7.7%	12
Norfolk	3	100.0%	0	0.0%	3
Suffolk	5	71.4%	2	28.6%	7
<b>Dwyrain Canolbarth Lloegr</b>	<b>30</b>	<b>88.2%</b>	<b>4</b>	<b>11.8%</b>	<b>34</b>
Swydd Derby	7	100.0%	0	0.0%	7
Swydd Gaerlŷr	9	100.0%	0	0.0%	9
Swydd Lincoln	1	100.0%	0	0.0%	1
Swydd Northampton	5	71.4%	2	28.6%	7
Swydd Nottingham	8	80.0%	2	20.0%	10
<b>Llundain</b>	<b>42</b>	<b>80.8%</b>	<b>10</b>	<b>19.2%</b>	<b>52</b>
<b>Glannau Mersi a Swydd Gaer</b>	<b>47</b>	<b>87.0%</b>	<b>7</b>	<b>13.0%</b>	<b>54</b>
Swydd Gaer	12	92.3%	1	7.7%	13
Glannau Mersi	35	85.4%	6	14.6%	41
<b>Gogledd Ddwyrain Lloegr</b>	<b>36</b>	<b>78.3%</b>	<b>10</b>	<b>21.7%</b>	<b>46</b>
Cleveland	10	58.8%	7	41.2%	17
Durham	5	100.0%	0	0.0%	5
Northumbria	21	87.5%	3	12.5%	24
<b>Gogledd Orllewin Lloegr</b>	<b>75</b>	<b>92.6%</b>	<b>6</b>	<b>7.4%</b>	<b>81</b>
Cumbria	6	100.0%	0	0.0%	6
Manceinion Fwyaf	40	93.0%	3	7.0%	43
Swydd Gaerhirfryn	29	90.6%	3	9.4%	32
<b>De Ddwyrain Lloegr</b>	<b>19</b>	<b>90.5%</b>	<b>2</b>	<b>9.5%</b>	<b>21</b>
Caint	5	100.0%	0	0.0%	5
Surrey	6	100.0%	0	0.0%	6
Sussex	8	80.0%	2	20.0%	10
<b>De Orllewin Lloegr</b>	<b>20</b>	<b>87.0%</b>	<b>3</b>	<b>13.0%</b>	<b>23</b>

Avon a Gwlad yr Haf	7	70.0%	3	30.0%	10
Dyfnaint a Chernyw	9	100.0%	0	0.0%	9
Gloucestershire	4	100.0%	0	0.0%	4
<b>Tafwys a Chiltern</b>	<b>13</b>	<b>59.1%</b>	<b>9</b>	<b>40.9%</b>	<b>22</b>
Swydd Bedford	1	25.0%	3	75.0%	4
Swydd Hertford	4	100.0%	0	0.0%	40
Dyffryn Tafwys	8	57.1%	6	42.9%	14
<b>Wessex</b>	<b>13</b>	<b>76.5%</b>	<b>4</b>	<b>23.5%</b>	<b>17</b>
Dorset	1	50.0%	1	50.0%	2
Hampshire ac Ynys Wyth	11	78.6%	3	21.4%	14
Wiltshire	1	100.0%	0	0.0%	1
<b>Gorllewin Canolbarth Lloegr</b>	<b>45</b>	<b>81.8%</b>	<b>10</b>	<b>18.2%</b>	<b>55</b>
Swydd Stafford	13	92.9%	1	7.1%	14
Swydd Warwick	2	40.0%	3	60.0%	5
Gorllewin Mersia	10	90.9%	1	9.1%	11
Gorllewin Canolbarth Lloegr	25	75.8%	8	24.2%	33
<b>Swydd Efrog a Glannau Humber</b>	<b>45</b>	<b>69.2%</b>	<b>20</b>	<b>30.8%</b>	<b>65</b>
Glannau Humber	15	71.4%	6	28.6%	21
Gogledd Swydd Efrog	4	80.0%	1	20.0%	5
De Swydd Efrog	16	94.1%	1	5.9%	17
Gorllewin Swydd Efrog	10	45.5%	12	54.5%	22
<b>Troseddau yn erbyn pobl hŷn</b>	<b>Erlyniadau CPS 2013 - 2014</b>				
	<b>Collfarnau</b>		<b>Aflwyddiannus</b>		<b>Cyfanswm</b>
	Nifer	%	Nifer	%	
<b>42 o Ardaloedd</b>	<b>2,369</b>	<b>81.1%</b>	<b>553</b>	<b>18.9%</b>	<b>2,922</b>
<b>Cymru</b>	<b>194</b>	<b>83.3%</b>	<b>39</b>	<b>16.7%</b>	<b>233</b>
Dyfed Powys	21	80.8%	5	19.2%	26
Gwent	54	87.1%	8	12.9%	62
Gogledd Cymru	41	75.9%	13	24.1%	54
De Cymru	78	85.7%	13	14.3%	91
<b>Dwyreiniol</b>	<b>141</b>	<b>82.9%</b>	<b>29</b>	<b>17.1%</b>	<b>170</b>
Swydd Gaergrawnt	25	86.2%	4	13.8%	29
Essex	64	82.1%	14	17.9%	78
Norfolk	32	80.0%	8	20.0%	40
Suffolk	20	87.0%	3	13.0%	23
<b>Dwyrain Canolbarth Lloegr</b>	<b>169</b>	<b>84.9%</b>	<b>30</b>	<b>15.1%</b>	<b>199</b>
Swydd Derby	33	84.6%	6	15.4%	39
Swydd Gaerlŷr	52	88.1%	7	11.9%	59
Swydd Lincoln	15	88.2%	2	11.8%	17
Swydd Northampton	23	85.2%	4	14.8%	27
Swydd Nottingham	46	80.7%	11	19.3%	57
<b>Llundain</b>	<b>303</b>	<b>79.7%</b>	<b>77</b>	<b>20.3%</b>	<b>380</b>
<b>Glannau Mersi a Swydd Gaer</b>	<b>117</b>	<b>86.0%</b>	<b>19</b>	<b>14.0%</b>	<b>136</b>
Swydd Gaer	32	76.2%	10	23.8%	42
Glannau Mersi	85	90.4%	9	9.6%	94
<b>Gogledd Ddwyrain Lloegr</b>	<b>134</b>	<b>85.4%</b>	<b>23</b>	<b>14.6%</b>	<b>157</b>
Cleveland	27	90.0%	3	10.0%	30
Durham	24	75.0%	8	25.0%	32
Northumbria	83	87.4%	12	12.6%	95
<b>Gogledd Orllewin Lloegr</b>	<b>277</b>	<b>85.5%</b>	<b>47</b>	<b>14.5%</b>	<b>324</b>
Cumbria	26	83.9%	5	16.1%	31
Manceinion Fwyaf	150	84.3%	28	15.7%	178

Swydd Gaerhirfryn	101	87.8%	14	12.2%	115
<b>De Ddwyrain Lloegr</b>	<b>146</b>	<b>79.8%</b>	<b>37</b>	<b>20.2%</b>	<b>183</b>
Caint	51	77.3%	15	22.7%	66
Surrey	35	81.4%	8	18.6%	43
Sussex	60	81.1%	14	18.9%	74
<b>De Orllewin Lloegr</b>	<b>128</b>	<b>79.5%</b>	<b>33</b>	<b>20.5%</b>	<b>161</b>
Avon a Gwlad yr Haf	55	83.3%	11	16.7%	66
Dyfnaint a Chernyw	50	75.8%	16	24.2%	66
Swydd Gaerloyw	23	79.3%	6	20.7%	29
<b>Tafwys a Chiltern</b>	<b>144</b>	<b>73.8%</b>	<b>51</b>	<b>26.2%</b>	<b>195</b>
Swydd Bedford	20	80.0%	5	20.0%	25
Swydd Hertford	52	75.4%	17	24.6%	69
Dyffryn Tafwys	72	71.3%	29	28.7%	101
<b>Wessex</b>	<b>103</b>	<b>72.5%</b>	<b>39</b>	<b>27.5%</b>	<b>142</b>
Dorset	21	67.7%	10	32.3%	31
Hampshire ac Ynys Wyth	77	74.8%	26	25.2%	103
Wiltshire	5	62.5%	3	37.5%	8
<b>Gorllewin Canolbarth Lloegr</b>	<b>268</b>	<b>81.0%</b>	<b>63</b>	<b>19.0%</b>	<b>331</b>
Swydd Stafford	23	82.1%	5	17.9%	28
Swydd Warwick	20	80.0%	5	20.0%	25
Gorllewin Mersia	45	90.0%	5	10.0%	50
Gorllewin Canolbarth Lloegr	180	78.9%	48	21.1%	228
<b>Swydd Efrog a Glannau Humber</b>	<b>245</b>	<b>78.8%</b>	<b>66</b>	<b>21.2%</b>	<b>311</b>
Glannau Humber	49	89.1%	6	10.9%	55
Gogledd Swydd Efrog	30	76.9%	9	23.1%	39
De Swydd Efrog	69	79.3%	18	20.7%	87
Gorllewin Swydd Efrog	97	74.6%	33	25.4%	130

## Geirfa

### Troseddau casineb

Digwyddiad hiliol a chrefyddol: unrhyw ddigwyddiad y mae'r dioddefwr neu unrhyw unigolyn arall yn ei amgyffred i fod wedi ei ysgogi gan gasineb neu ragfarn ar sail hil neu grefydd unigolyn, neu ei hil neu grefydd dybiedig.

Digwyddiad homoffobaidd a thrawsffobaidd: unrhyw ddigwyddiad a ddehonglir gan y dioddefwr neu unrhyw unigolyn arall, sydd wedi ei ysgogi gan gasineb neu ragfarn ar sail tueddfryd rhywiol neu hunaniaeth drawsryweddol neu dueddfryd rhywiol neu hunaniaeth drawsryweddol dybiedig

Digwyddiad anabledd: unrhyw ddigwyddiad y mae'r dioddefwr neu unrhyw unigolyn arall yn ei amgyffred i fod wedi ei ysgogi gan gasineb neu ragfarn ar sail anabledd neu anabledd tybiedig.

Fflagiau Monitro: Nodir mathau o achosion sensitif drwy ddefnyddio nifer o fflagiau monitro, gaiff eu defnyddio gydag achosion priodol yn ystod y cam cyn cyhuddo.

Mae'r fflagiau yn caniatáu i reolwyr fonitro gweithrediadau yn ystod oes yr erlyniad, a galluogi adrodd ar ddeilliannau yn dilyn cwblhau'r achos. Defnyddir fflagiau mewn achosion o droseddau casineb a throseddau yn erbyn pobl hŷn.

Troseddau yn erbyn pobl hŷn:

troseddau yn y categorïau isod, pan fydd y dioddefydd dros 60 oed:

- pan fydd perthynas a disgwyliad o ymddiriedaeth, er enghraifft, lladrad neu ymosodiad gan ofalwr neu aelod o'r teulu

- sydd wedi eu targedu'n benodol at yr unigolyn hŷn oherwydd eu bod yn cael eu canfod fel rhywun bregus neu'n darged hawdd e.e. byrgleriaeth tynnu sylw neu fygio

- nad ydynt yn gysylltiedig yn gyntaf ag oed y person hŷn ond eu bod yn mynd felly yn hwyrach e.e. byrgleriaeth pan nad yw'r byrgler yn gwybod beth yw oed deiliad y cartref ond yn hwyrach mae'n manteisio ar y sefyllfa wrth ganfod bod y deiliad yn berson hŷn

- sy'n ymddangos i fod yn rhannol, neu'n gyfan gwbl, wedi ei gymell gan elyniaeth wedi ei seilio ar oed, neu oed tybiedig. Er enghraifft, ymosodiad, aflonyddu neu ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cynnwys gwneud sylwadau sarhaus sy'n gysylltiedig ag oed y dioddefwr.

## Deilliannau achosion

**Penderfyniadau cyn-cyhuddo:** Ym mhob achos heblaw'r rhai lleiaf, a phan ddisgwylir ple euog, Erlynyddion y Goron sy'n gyfrifol am benderfynu p'un a ddylid cyhuddo unigolyn gyda throsedd ac, os felly, pa drosedd ddylai honno fod, yn unol â Chanllawiau'r Cyfarwyddwr ar Gyhuddo.

Wedi'i gyhuddo:  
cyhuddo.

achosion pan benderfynodd y CPS y dylid

Dim erlyniad:

achosion pan fydd y CPS yn penderfynu na ddylid erlyn, am resymau tystiolaethol neu am resymau budd y cyhoedd.

Ymdrin ag achosion y tu allan i'r llys: ble rhoddwyd rhybudd, rhybudd amodol, cerydd neu rybudd terfynol neu ble mae'r drosedd wedi ei hystyried parthed cyhuddiadau eraill.

Cwblhau Gwaith Gweinyddol:

nid yw'r sawl a amheuir wedi ateb mechnïaeth ac mae gwarant yn aros neu mae'r achos wedi ei derfynu yn weinyddol am amrywiol resymau.

Arall: nid yw canlyniad y penderfyniad cyhuddo wedi ei gofnodi na'i ddiffinio.

## Erlyniadau

Yr holl ddiffynyddion a gyhuddwyd neu a dderbyniodd wŷs ac y cwblhawyd yr achos yn llys yr ynadon neu Lys y Goron yn ystod y cyfnod, gan gynnwys y rhai a aeth ymlaen i dreial neu bledio'n euog, y rhai a derfynwyd a'r rhai na ellid bwrw ymlaen â nhw.

Deilliannau Aflwyddiannus: pob erlyniad sydd wedi'u cwblhau ond y diffynnydd heb ei gollfarnu, yn cynnwys y canlynol:

Wedi eu terfynu a'u tynnu yn ôl: Gall ystyriaeth o'r dystiolaeth a budd y cyhoedd arwain y CPS i derfynu'r achos unrhyw adeg cyn dechrau'r treial. Yn gynwysedig yma mae achosion a derfynwyd yn ffurfiol cyn y gwrandawriad, y rheiny na chynigiwyd unrhyw dystiolaeth ynddynt, a'r rheiny a dynnwyd yn ôl yn ystod yr achos llys. Hefyd yn gynwysedig mae achosion pan ymrwymwyd y diffynnydd i gadw'r heddwch.

Gwrthod ar ôl treial llawn: achosion ble bydd y diffynnydd yn pledio'n ddieuog ac y bydd yr ynadon yn gwrthod yr achos ar ôl gwrandao achos yr amddiffyniad.

Barnwr yn cyfeirio at ryddfarnu: achosion pan, ar ddiwedd achos yr erlyniad yn erbyn y diffynnydd, wneir argymhelliad llwyddiannus o 'ddim achos' neu 'annigogel' ar ran y diffynnydd, ac y bydd y barnwr yn cyfarwyddo rhyddfarn yn hytrach na chaniatáu i'r achos gael ei benderfynu gan y rheithgor.

Rhyddfarnu gan reithgor: pan fydd y diffynnydd yn pledio'n ddieuog ac, yn dilyn treial, yn cael ei ryddfarnu gan y rheithgor.

Yr holl ganlyniadau aflwyddiannus eraill: yn cynnwys terfyniadau gweinyddol, traddodebau a ryddhawyd, a dim achos i'w ateb.

Cwblhau gwaith gweinyddol: pan na all erlyniad fynd yn ei flaen oherwydd bod diffynnydd wedi methu ymddangos yn y llys a Gwarant gan y Fainc wedi'i chyflwyno i'w arestio ef neu hi; neu fod y diffynnydd wedi marw; neu nad yw'n ffit i bledio; neu pan fydd achosion yn cael eu gohirio'n amhenodol.

Traddodebau a ryddhawyd: achosion traddodi pan fo'r diffynnydd yn cael ei ryddhau.

Dim achos i'w ateb: achosion pan fydd y diffynnydd yn pledio'n ddieuog ac y gwrandawir dystiolaeth yr erlyniad, ond y

gwrthodir yr achos gan yr ynadon heb wrando achos yr amddiffyniad.

Collfarnau:	achosion pan gaiff y diffynnydd ei ddyfarnu'n euog yn dilyn erlyniad, yn cynnwys:
Ple euog:	pan fydd y diffynnydd yn pledio'n euog.
Collfarn yn dilyn treial:	Achosion pan fydd y diffynnydd yn pledio'n ddieuog, ond yn cael ei gollfarnu ar ôl gwrando ar y dystiolaeth.
Prawf yn absenoldeb:	troseddau llai yw'r rhain, materion monitro yn bennaf – a glywir gan y llys yn absenoldeb y diffynnydd.

## **Categoriâu rhesymau dros ganlyniadau aflwyddiannus**

Tystiolaethol:	pan fydd yr erlynydd yn penderfynu nad oes digon o dystiolaeth i roi gobaith realistig o gollfarn.
Budd y cyhoedd:	pan ystyrir bod digon o dystiolaeth, ond bod yr erlynydd yn penderfynu bod ffactorau budd y cyhoedd yn erbyn erlyniad.
Methu parhau:	pan fydd y dystiolaeth a budd y cyhoedd yn cefnogi erlyniad, ond fod amgylchiadau yn ei gwneud hi'n amhosib i'r achos fynd yn ei flaen.
Rhesymau eraill:	pan fydd y diffynnydd yn cael ei rwymo, rhyddfarnu neu'r achos yn cael ei wrthod ar ôl treial, neu pan nad oes unrhyw ddewis arall yn briodol.
Cwblhau gwaith gweinyddol:	pan na all erlyniad fynd yn ei flaen oherwydd bod diffynnydd wedi methu ymddangos yn y llys a Gwarant gan y Fainc wedi'i chyflwyno i'w arestio ef neu hi; neu fod y diffynnydd wedi marw; neu nad yw'n ffit i bledio: neu pan fydd achosion yn cael eu gohirio yn amhenodol.

## **Rhesymau dros ddeilliannau aflwyddiannus**

Dioddefwr yn tynnu'n ôl:	pan fydd tystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi achos yr erlyniad, y dioddefwr yn gwrthod cael ei alw i dystio, neu'n tynnu'n ôl, neu'n tynnu'r gŵyn yn ôl.
Dioddefydd ddim yn mynychu:	gelwir y dioddefydd yn dyst mewn achos, ond ni fydd yn dod i'r llys.
Tystiolaeth y dioddefydd ddim yn cefnogi'r achos:	nid yw tystiolaeth y dioddefydd am y drosedd yn cefnogi erlyn y diffynnydd, gan arwain at ganlyniad aflwyddiannus, ond, serch hynny, nid yw'r dioddefydd wedi tynnu'n ôl. (Y rheswm pam y diwygiwyd y teitl ym mis Ebrill 2013 i: 'Nid yw tystiolaeth y dioddefwr yn cyrraedd safon prawf,

ond nid yw wedi ei dynnu'n ôl').

Gwrthdaro tystiolaeth:	gwrthgyferbyniadau yn nhystiolaeth yr erlyniad yn arwain at erlyniad aflwyddiannus. O fis Ebrill 2013, fe addaswyd y canllawiau i egluro na ddylid defnyddio'r rheswm hwn pan fydd y dioddefwr yn tynnu'n ôl, neu os nad yw'n mynychu neu os nad yw ei dystiolaeth yn cyrraedd safon prawf).
Elfen gyfreithiol hanfodol ar goll:	ni all yr erlyniad barhau oherwydd bod elfen gyfreithiol hanfodol ar goll o achos yr erlyniad. (Addaswyd y 'teitl rheswm' ym mis Ebrill 2013 i 'Penderfyniad cyhuddo anghywir – elfen gyfreithiol ar goll'; roedd y canllaw diwygiedig yn egluro na ddylid defnyddio'r rheswm hwn pan fydd y dioddefwr yn tynnu'n ôl, ddim yn mynychu neu os nad yw ei dystiolaeth yn cyrraedd safon prawf).
Ditiad neu ddedfryd arall:	nid yw'r achos yn mynd ymlaen oherwydd bod yr un diffynnydd yn destun ditmentau neu ddedfrydau eraill yn achos achosion eraill.
Rhyddfarnau ar ôl treial:	ceir y diffynnydd yn ddiheuog gan yr ynadon neu reithgor ar ôl gwrandawriad sy'n cael ei herio pan elwir ar yr amddiffyniad i gyflwyno'i achos. (Ni chynhwysir achosion wedi eu gwrthod, dim achos i'w ateb neu'r barnwr wedi cyfarwyddo rhyddfarn).
Categori prif drosedd:	bydd troseddau a gyhuddir yn cael eu dyrannu i un o ddeuddeg categori trosedd er mwyn dangos y math o drosedd a difrifoldeb y cyhuddiadau a ddygir yn erbyn y diffynnydd.